
# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI
# STRATEGAETH RHEOLI ASEDAU 2016-2026



**{This page is intentionally blank}**

# CYNNWYS

**Cyflwyniad** .... 4

**Adran 1 | Cefndir a Chyd-destun** .... 4
Beth yw Rheoli Asedau? .... 5

**Beth yw Rheoli Asedau[2]?** .... 5
Ein Hegwyddorion .... 5
Deilliannau .... 6
Blaenoriaethau'r Cyngor .... 7
Statudol .... 10
Ariannol .... 11
Ble ydym ni nawr? .... 11
Strategaethau Gwasanaeth .... 12
Perchenogaeth a Chwmpas y Strategaeth .... 22

**Adran 2 | Deilliannau'r Strategaeth** .... 24

**DEILLIANT 1: CYDYMFFURFIO** .... 25

**DEILLIANT 2: CYFLWR** .... 27

**DEILLIANT 3: ADDASRWYDD** .... 29

**DEILLIANT 4: DIGONOLRWYDD** .... 31

**DEILLIANT 5: HYGYRCHEDD** .... 33

**DEILLIANT 6: CYNALIADWYEDD** .... 35

**Adran 3 | Monitro ac Adolygu'r Strategaeth** .... 37
Rhagdybiaethau .... 39
Cyfyngiadau .... 40
Cyfleoedd .... 40

**Adran 4 | Atodiadau** .... 41
Atodiad A: Nodau Llesiant Cenedlaethol Cenedlaethau'r Dyfodol .... 42
Atodiad B: Safon Sylfaen – Ystyr Hygyrch .... 43
Atodiad C: Penderfyniadau Buddsoddi (Achos Busnes Amlinellol Strategol) .... 44

**Grŵp Eiddo Corfforaethol**
**Tŷ Penallta**
**Campws Tredomen**
**Ystrad Mynach**

**Swyddog Cyswllt:** **Colin Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Eiddo**

# Cyflwyniad

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu ein gweledigaeth a'n hymagwedd hirdymor at wella adnabod, rheoli a defnyddio ein hasedau a ddelir yn enw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y prif nod yw cefnogi blaenoriaethau'r Cyngor, cyflawni gofynion gwasanaeth a chydymffurfio â dyletswyddau statudol. Mae prif thema'r Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol hon wedi'i gosod yng nghyd-destun cyflawni'r Cynllun Corfforaethol a chysoni ag argymhellion adolygu asedau.

# Adran 1 | Cefndir a Chyd-destun

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yw'r 5ed awdurdod mwyaf yng Nghymru o ran ei faint daearyddol ac mae'n gwasanaethu rhyw 179,000 o drigolion, er y rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu i 189,00 dros y 10 mlynedd nesaf. Mae ganddo broffil demograffig gwahanol gyda chyfran uwch o blant a phobl o oedran ymddeol na chyfartaleddau Cymru. Caerffili sydd â'r gyfradd gyflogaeth ail isaf yng Nghymru ac mae ganddi lefel amddifadedd gymharol uwch. Mae gan 21 y cant o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim (fe'i defnyddir fel dynodiad o amddifadedd) a'r ganran hon yw'r chweched uchaf o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Mae tri chwarter o 73 o wardiau'r Cyngor yn y 50 y cant o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, er nad oes crynodiadau mawr o ardaloedd o amddifadedd uchel iawn yn y Sir o gymharu â rhai awdurdodau eraill yng Nghymru.

Mae 73 aelod gan y Cyngor ac mae'n gweithredu yn ôl system gabinet gyda 9 o ddeiliaid portffolio. Y sefydliad yw'r cyflogwr mwyaf yn yr ardal, gyda rhyw 9,500 o staff yn darparu dros 600 o wasanaethau. Mae gan yr Awdurdod gyllideb refeniw gros a chyfalaf gyfunol o dros £562 miliwn y flwyddyn. Mae tua 833 o adeiladau gan y Cyngor, gan gynnwys cyfanswm o 92 o ysgolion, 19 o Ganolfannau Hamdden ac 18 o Lyfrgelloedd. Mae'r Gwasanaeth Priffyrdd yn cynnal a chadw cyfanswm hyd o 1,193 cilometrau o ffyrdd, 6 cilometr o Gamlas Sir Fynwy ac Aberhonddu a 27,150 o golofnau goleuadau stryd. Mae ein gwasanaethau fflyd yn cynnal a chadw dros 500 o gerbydau gan ddarparu ystod amrywiol o wasanaethau o gerbydau pryd ar glud i gerbydau casglu gwastraff. Fel sefydliad sy'n gwneud defnydd sylweddol o dechnoleg gwybodaeth, rydym yn cefnogi 4,500 o ddyfeisiau a 10,000 arall o ddyfeisiau ar gyfer ysgolion. Mae'r adran Cynllunio ac Adfywio yn rheoli portffolio masnachol o dros 250 o adeiladau swyddfa ac eiddo diwydiannol mewn 16 o leoliadau ledled y Fwrdeistref Sirol, mae'n gweithredu 5 o gyfleusterau ymwelwyr (Maenordy Llancaiach Fawr, Canolfan Ymwelwyr a Gwersyllfa Rhodfa Coedwig Cwmcarn, Canolfan Ymwelwyr Caerffili, Amgueddfa Tŷ Weindio Tredegar Newydd, a Sefydliad y Glowyr Coed Duon), a 5 o barciau gwledig (ym Mharc Cwm Daran, Parc Coed Tir Bargoed, Parc Penallta, Llyn Pen y Fan a Dyffryn Sirhywi).

Mae'r fwrdeistref yn meddiannu rhyw 28,000ha, ac yn cynnwys y tri dyffryn afonydd: Rhymni, Sirhywi ac Ebwy. Mae 80% o'r Fwrdeistref Sirol yn wledig (5 o barciau gwledig, 34 o barciau cyhoeddus a dros 200 o safleoedd o ddiddordeb arbennig.) Mae tirweddau'r dyffrynnoedd naturiol yn cynnwys 200 o gopaon dros 1,000 tr. (304.8m), 6 llyn a 50 o afonydd a dyfrffyrdd - gan ddarparu cefnlen ddeniadol ar gyfer adfywio economaidd a chyfle mawr ar gyfer datblygiadau twristiaeth a hamdden.

**Beth yw Rheoli Asedau[2]?**

Ceir canlyniadau lu o chwilio ar y we am "rheoli asedau" yn gysylltiedig â rheoli buddsoddiadau a chyllid, ac o bosibl, ystod ddryslyd o amrywiadau ymddangosiadol i asedau ffisegol. Er enghraifft, ymddengys bod rheoli asedau strategol, rheoli asedau eiddo, rheoli asedau cyfleusterau, rheoli asedau seilwaith, rheoli asedau menter, a rhai eraill yn hawlio achos arbennig neu 'wahaniaeth'. Nid yw'r disgrifwyr cymhwyso yn newid y craidd cyson cynhenid, beth bynnag yw math neu natur yr asedau sydd i'w rheoli.

Mae'n ddefnyddiol felly fod safon ISO 55000 wedi datblygu diffiniad tra ystyriol ar gyfer rheoli asedau (cymal 3.3.1):

> *"gweithgarwch cydlynus sefydliad i realeiddio gwerth o asedau"*

a lle bo ased (cymal 3.2.1) yn:

> *"eitem, yn beth neu'n endid sydd â photensial neu werth gwirioneddol i sefydliad"*

ac mae'r nodiadau ar gyfer y diffinio rheoli asedau yn datgan

> *"bydd realeiddio gwerth fel arfer yn golygu cydbwyso costau, risgiau, cyfleoedd a buddion perfformiad, ac mae ystyr eang i'r term 'gweithgarwch' a gall gynnwys, er enghraifft, yr ymagwedd, y cynllunio, y cynlluniau a'u gweithrediad."*

MAE RHEOLI ASEDAU YN FWY NA GWNEUD PETHAU I ASEDAU - mae'n golygu defnyddio asedau i sicrhau gwerth a chyflawni amcanion busnes y sefydliad. Mae hefyd yn dod ag ymagwedd wahanol a ffordd wahanol o feddwl, ac yn trawsnewid cysondeb a diwylliant sefydliadol. Mae'n rhaid i bob sefydliad benderfynu beth mae'n ystyried yw gwerth, a dewis sut i reoli ei asedau er mwyn deillio'r cyfanswm gwerth gorau.

Mae rheoli asedau yn berthnasol i bob math o sefydliad, p'un a ydyw'n fawr, yn fach, yn breifat, yn gyhoeddus, yn sefydliad y llywodraeth neu'n sefydliad nid er elw. Mae tystiolaeth gynyddol ledled y byd y gall rheoli asedau'n effeithiol wella enw da sefydliad a'i allu i:

- weithredu'n ddiogel
- bodloni ei rwymedigaethau rheoleiddiol a statudol,
- gwerthuso strategaethau busnes y dyfodol er mwyn cyflawni proffiliau perfformiad, costau a risg goddefol gwahanol, a
- lleihau cost rheoli asedau'n sylweddol dros eu hoes

## Beth yw ased?

At ddibenion Adran 2 | Deilliannau'r Strategaeth, mae "ased" yn ymwneud ag asedau *perthnasol* yn unig, fel 'adeilad' neu 'ffordd', sydd â chylch bywyd y gellir priodoli cost iddo. Rydym wedi cynnwys Adnoddau Dynol i gydnabod y cysylltiadau rhwng staff, gweithio ystwyth, a rheoli adeiladau; fodd bynnag, mae ystod o strategaethau Adnoddau Dynol i gefnogi'r 'adnodd' hwn, ac o ganlyniad, nid yw wedi'i gynnwys yn Adran 3.

## Ein Hegwyddorion

Disgwyliwn y bydd y strategaethau a'r cynlluniau unigol sy'n sail i'r Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol hon yn cael eu dilyn yn unol â'r egwyddorion canlynol[2]:

---

[1] Atgynhyrchwyd o 'An Anatomy of Asset Management' (Fersiwn 3 Rhagfyr 2015) © Y Sefydliad Rheoli Asedau

- Byddwn yn cydbwyso anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion y cenedlaethau yn y tymor hir, *lle gellir adnabod yr anghenion tymor hir hynny.*
- Byddwn yn cyfleu'r hyn rydym yn ei wneud a'r cynnydd a wnaed gennym
- Byddwn yn cynnwys unigolion eraill yn y broses o ddatblygu ein strategaethau/ cynlluniau rheoli asedau er mwyn adlewyrchu amrywiaeth y bobl yn y fwrdeistref sirol
- Byddwn yn gweithio gyda chyrff gwasanaethau cyhoeddus eraill i gyflawni (lle bo modd) atebion rheoli asedau ar y cyd, a nodau ategol.
- Byddwn yn ceisio gwella ansawdd ein hamgylchedd trwy reolaeth dda ar asedau drwy sicrhau bod ein hadnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol.
- Ansawdd bywyd ac asedau addas i'r diben fydd ein prif ystyriaeth, o fewn cyfyngiadau ariannol penodedig.

Datblygwyd y strategaeth hon ar ôl ffurfio rhai strategaethau gwasanaeth; felly, mae datblygu'r strategaeth gyffredinol yn galluogi adolygu'r holl strategaethau gwasanaeth neu ffurfio rhai newydd yn unol â'n cyd-ideoleg gyffredinol ar gyfer defnyddio ein hasedau yn effeithiol.

## Deilliannau

MAE'R DEILLIANNAU A FABWYSIADWYD AR GYFER Y STRATEGAETH HON, *AC A FYDD YN CAEL EU CYMHWYSO I REOLAETH O* ***HOLL*** *ASEDAU'R CYNGOR,* FEL A GANLYN:

**CYDYMFFURFIO**: I sicrhau bod asedau yn ddiogel i'w defnyddio a'u bod yn cefnogi cyflenwi gwasanaethau, rhaid i asedau gydymffurfio â gofynion statudol a rheoleiddiol, yn ogystal â bodloni safonau arfer gorau priodol.

**CYFLWR**: Rhaid cynnal a chadw asedau i sicrhau eu bod mewn cyflwr boddhaol neu well er mwyn cefnogi cyflenwi gwasanaethau a chyflawni blaenoriaethau corfforaethol.

**ADDASRWYDD**: Bydd asedau sy'n addas i'r diben ar gyfer cyflenwi gwasanaethau nawr ac yn y dyfodol yn fwy effeithiol o ran cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor. Mae addasrwydd yn ehangach na chyflwr asedau, gan ei fod hefyd yn ystyried pa mor dda y mae'r ased yn cydweddu â gofynion cyflenwi gwasanaethau presennol a rhai wedi'u cynllunio.

**DIGONOLRWYDD**: Mae'n rhaid i asedau cyngor fod yn ddigonol at ddefnydd presennol a defnydd y dyfodol, gyda chapasiti yn adlewyrchu'r galw a gofynion defnyddwyr. Mae'r elfen hon o reoli asedau yn galluogi'r cyngor i gynllunio i gefnogi datblygu gwasanaethau, yn ogystal â nodi unrhyw asedau posibl nad ydynt yn cael eu defnyddio digon.

**HYGYRCHEDD**: I gyflenwi gwasanaethau'n effeithiol i holl aelodau'r gymuned, mae angen i asedau fod yn rhesymol o hygyrch i bawb, yn enwedig y rheiny ag anableddau corfforol ac anableddau dysgu[3].

**CYNALIADWYEDD**: Bydd asedau'r Cyngor yn cael eu rheoli i sicrhau bod eu hoes weithredol ddefnyddiol yn bodloni disgwyliad oes disgwyliedig, yn ogystal â lleihau'r effaith niweidiol bosibl ar yr amgylchedd. Dylai cynaliadwyedd wneud yn siŵr bod asedau'r cyngor ar gael i gefnogi cyflwyno gwasanaethau'n barhaus yn y tymor hir.

Rhoddir sylw manylach i'r rhain yn Adran 2 | Deilliannau'r Strategaeth

---

[2] Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gweler Atodiad A
[3] Gweler Atodiad B Safon Sylfaen – Ystyr Hygyrch

## Blaenoriaethau'r Cyngor

Mae'r cyngor wedi pennu wyth o flaenoriaethau dros bedair blynedd 2013 i 2017 mewn ymgynghoriad â'r gymuned leol, partneriaid, rhanddeiliaid a staff. Y blaenoriaethau hyn yw'r gweithgareddau hanfodol y bydd y cyngor yn ymgymryd â nhw er mwyn cyflawni'r casgliadau gorau i Fwrdeistref Sirol Caerffili.

Mae'r tabl isod yn dangos ble mae'r Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol yn cyfrannu'n uniongyrchol at flaenoriaeth y cyngor.

| Blaenoriaethau'r Cyngor | Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol |
|---|---|
| 1. Caiff anghenion gofal cymdeithasol pobl eu nodi a'u bodloni mewn ffordd amserol a phriodol | ✓ |
| 2. Caiff Plant ac Oedolion eu diogelu rhag cael eu cam-drin | ✓ |
| 3. Gwella safonau ar draws pob grŵp blwyddyn yn arbennig cyfnodau allweddol 3 a 4 | ✓ |
| 4. Nodi grwpiau o ddysgwyr sy'n agored i niwed a datblygu ymyriadau er mwyn sicrhau y caiff eu hanghenion eu diwallu | ✓ |
| 5. Lleihau'r bwlch o ran cyrhaeddiad rhwng disgyblion mewn cymunedau breintiedig a chymunedau difreintiedig | ✓ |
| 6. Hyrwyddo buddiannau ffordd o fyw gweithgar ac iach. | ✓ |
| 7. Buddsoddi yng Nghartrefi'r Cyngor a'u cymunedau er mwyn trawsnewid bywydau | ✓ |
| 8. Fforddiadwyedd – Rhoi Cynllun Ariannol tymor canolig ar waith wedi'i anelu at ddarparu cyfnod o sefydlogrwydd sy'n helpu'r awdurdod i gynnig amrywiaeth o wasanaethau cynaliadwy yn y dyfodol | ✓ |

Yn fwy penodol, gan fod rheoli adnoddau yn sail i'r holl broses cyflenwi gwasanaethau ar draws y cyngor bron, byddwn yn cefnogi wyth blaenoriaeth y cyngor yn y ffyrdd a ganlyn:

| **Blaenoriaethau'r Cyngor 2014 i 2017** | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth y Cyngor** | **Categorïau Asedau Ategol** |
| 1. Caiff anghenion gofal cymdeithasol pobl eu nodi a'u diwallu mewn ffordd amserol a phriodol | **EIDDO (YR HENOED)** – mae asedau eiddo gweithredol y cyngor yn cynnwys cartrefi gofal, tai i'r henoed, tai gwarchod a chyfleusterau cymunedol a ddefnyddir gan bobl hŷn. Gan sicrhau bod y cyfleusterau hyn yn ddiogel, yn addas i'r diben, buddsoddi mewn cyfleusterau newydd a chefnogi cyflwyno gwasanaethau gyda'r nod o wella ansawdd bywyd i bobl hŷn. |
| 2. Caiff Plant ac Oedolion eu diogelu rhag cael eu cam-drin. | **EIDDO – Gwent Gyfan** – rydym yn gweithio gydag eraill, gan gynnwys cymdeithasau tai, i sefydlu lloches i fenywod.<br>**EIDDO/ADDYSG -** caiff lleoliadau fel llyfrgelloedd eu hystyried yn fannau cymunedol diogel gan oedolion a phlant. |
| 3. Gwella safonau ar draws pob grŵp blwyddyn yn arbennig cyfnodau allweddol 3 a 4 | **EIDDO/ADDYSG** – mae buddsoddiad gan y cyngor yng nghyflwr, digonolrwydd ac addasrwydd yr ystâd ysgolion yn helpu cynnal amgylchedd dysgu effeithiol; mae buddsoddi mewn adeiladau llyfrgelloedd yn ehangu'r amgylchedd dysgu â chymorth hwn i leoliadau cymunedol hygyrch.<br>**PRIFFYRDD AC ASEDAU CYSYLLTIEDIG** – mae buddsoddiad yn y maes hwn yn sicrhau llwybrau diogel i ysgolion a chynnal a chadw ierdydd chwarae ysgolion.<br>**MANNAU AGORED** – mae buddsoddi mewn mannau agored yn sicrhau bod caeau chwarae ein hysgolion yn cael eu cynnal a'u gwella lle bo angen i gefnogi'r ddarpariaeth chwarae ac addysgu.<br>**TGCH**– Mae buddsoddi mewn TGCh yn chwarae rhan bwysig i gefnogi addysg ar draws pob amgylchedd dysgu, gan gynnwys ysgolion. Mae sgiliau technoleg a geir trwy ddefnyddio offer TGCh yn hollbwysig i alluogi cyrchfannau cadarnhaol yn y dyfodol a chydymffurfio â'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol. |
| 4. Nodi grwpiau o ddysgwyr sy'n agored i niwed a datblygu ymyriadau er mwyn sicrhau y caiff eu hanghenion eu diwallu | **EIDDO / ADDYSG –** Cynnal Ysgol Cae'r Drindod ac unedau cyfeirio disgyblion. Mae gwelliannau i adeiladau llyfrgelloedd yn cynorthwyo disgyblion mewn cymunedau difreintiedig.<br>**TGCH** – mae darparu cyfleusterau TGCh ar draws y rhwydwaith yn cynorthwyo disgyblion mewn cymunedau difreintiedig. |

| **Blaenoriaethau'r Cyngor 2014 i 2017** | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth y Cyngor** | **Categorïau Asedau Ategol** |
| 5. Lleihau'r bwlch o ran cyrhaeddiad rhwng disgyblion mewn cymunedau breintiedig a chymunedau difreintiedig | **EIDDO** – mae rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif y cyngor yn datblygu'n dda, gydag adeiladau a chyfleusterau modern o safon uchel yn cael eu darparu mewn rhai o'r ardaloedd mwyaf difrreintiedig yn y fwrdeistref sirol.<br>**TGCH** – Mae buddsoddi mewn TGCh yn chwarae rhan bwysig mewn cefnogi addysg ar draws pob amgylchedd dysgu, gan gynnwys ysgolion. Mae sgiliau technoleg a geir trwy ddefnyddio offer TGCh yn hollbwysig i alluogi cyrchfannau cadarnhaol yn y dyfodol a chydymffurfio â'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol. |
| 6. Hyrwyddo buddiannau ffordd o fyw gweithgar ac iach | **EIDDO** – asedau eiddo sydd yn darparu adeiladau ar gyfer gwasanaethau sy'n galluogi ein cymunedau i wneud dewisiadau ffordd iach o fyw er mwyn gwella ansawdd bywyd dinasyddion, o ran gwybodaeth a chyfleoedd.<br>**PRIFFYRDD AC ASEDAU CYSYLLTIEDIG** – Mae buddsoddi mewn "Teithio Llesol", addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd ynghylch diogelwch ffyrdd a hyfforddiant safonau cenedlaethol beicio yn hybu ffordd o fyw gweithgar ac iach.<br>**MANNAU AGORED** – mae asedau yn y categori hwn yn darparu amrywiaeth o gyfleusterau hamdden, cymunedol a chwaraeon. Ceir cysylltiad uniongyrchol rhwng gwella mannau agored ac ardaloedd cyhoeddus â chanfyddiadau trigolion o Fwrdeistref Sirol Caerffili ac mae'n darparu gweithgareddau dargyfeiriol i bobl ifanc.<br>**PRESENOLDEB AR Y WE –** Mae gwefannau Hamdden, Ffordd o Fyw a Her Iechyd Caerffili yn cynnig cyfleusterau a chyngor. |
| 7. Buddsoddi yng Nghartrefi'r Cyngor a'u cymunedau er mwyn trawsnewid bywydau | **TAI** – mae stoc dai'r cyngor yn darparu tai fforddiadwy o ansawdd da. |

| **Blaenoriaethau'r Cyngor 2014 i 2017** | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth y Cyngor** | **Categorïau Asedau Ategol** |
| 8. Fforddiadwyedd – Rhoi Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar waith wedi'i anelu yn y pen draw at ddarparu cyfnod o sefydlogrwydd sy'n helpu'r awdurdod i gynnig amrywiaeth o wasanaethau cynaliadwy yn y dyfodol. | **Eiddo** – Bydd cael portffolio eiddo addas i'r diben gyda'r landlord corfforaethol yn cymryd 'golwg strategol' ar ddefnyddio eiddo yn parhau i gyflawni arbedion drwy resymoli ein stoc eiddo lle mae'n berthnasol i wneud hynny.<br>**Priffyrdd ac Asedau Cysylltiedig** – mae cynnal a chadw rhwydwaith priffyrdd cyhoeddus diogel yn atal costau drwy leihau hawliadau; yn benodol, mae goleuadau LED yn darparu dewis amgen oes hirach/ynni is, ac mae triniaethau wyneb ffordd yn ymestyn bywyd y briffordd.<br>**Cynllunio ac Adfywio** – bydd incwm rhent o'r portffolio diwydiannol a masnachol yn cyfrannu at y Cynllun Ariannol Tymor Canolig |

## Statudol

Bydd **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, yn newid y ffordd y mae gwasanaeth cyhoeddus yn cynllunio ac yn gweithio. *Diben y Ddeddf yw sicrhau bod trefniadau llywodraethu cyrff cyhoeddus ar gyfer gwella llesiant Cymru yn ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol.*

**Y 7 nod llesiant cenedlaethol:**

- Cymru gydnerth
- Cymru lewyrchus
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Ei bwriad yw gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru yn unol â datblygu cynaliadwy. Mae'n golygu annog cyrff cyhoeddus i feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau ac â'i gilydd, ceisio atal problemau a mabwysiadu dull mwy cydgysylltiedig yn unol â'r 7 nod llesiant cenedlaethol.
Dangosir y nodau a'u diffiniadau yn fanylach yn Atodiad A

I ddangos ein bod wedi bodloni ein dyletswydd statudol i gyflawni datblygu cynaliadwy, ceir **5 ffordd o weithio** a fydd yn dangos hyn, sef:

1. Edrych i'r **tymor hir** fel nad ydym yn amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain;
2. Mabwysiadu dull **integredig** fel bod cyrff cyhoeddus yn edrych ar bob un o'r nodau llesiant wrth benderfynu ar eu blaenoriaethau;
3. **Cynnwys** amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
4. Gweithio gydag eraill mewn modd **cydweithredol** i ddod o hyd i atebion cynaliadwy ar y cyd;
5. Deall achosion craidd materion er mwyn eu **hatal** rhag digwydd

Mae'r canllawiau cenedlaethol ar gyfer cymhwyso'r 5 ffordd o weithio yn nodi **rheoli asedau** fel un o'r saith o weithgareddau sefydliadol craidd hefyd, ac ystyrir mai

cymhwyso gofynion y Ddeddf i'r gweithgareddau hynny sy'n fwyaf tebygol o sicrhau'r newid sydd ei angen.

Yn ogystal, roedd y Papur Gwyn **Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol** a gyhoeddwyd yn Chwefror (2015) yn cynnwys cynigion penodol ar gyfer mwy o gyfranogiad cymunedol a throsglwyddo asedau i gymunedau sy'n dymuno ymgymryd â'r asedau hyn. Gelwir y rhain yn Trosglwyddo Asedau Cymunedol. Mae'r pwysau ariannol ledled Cymru yn gwneud hwn yn gynnig deniadol i Lywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, nid oes rhwymedigaeth ar wasanaethau cyhoeddus i drosglwyddo'u hasedau. Mae'r papur gwyn yn cynnig y gall cyrff cymunedol cymwys roi cychwyn ar drosglwyddo ased o awdurdod lleol i berchenogaeth gymunedol. Barn y papur gwyn yw y gallai hyn arwain at ddefnydd hirdymor cynaliadwy o asedau eiddo ac y bydd mwy o botensial i arloesi. Cynghorir na ddylid gweld hyn fel ffordd o waredu asedau dros ben ond ei weld fel cyfle i helpu datblygu cymuned, gyda'r nod yn y pen draw o 'rymuso cymuned'.

Mae'r Cyngor hefyd yn aelod gweithgar o'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol, sy'n cefnogi'r ymgyrch genedlaethol i gynnwys y gymuned a sefydliadau cyhoeddus/ gwirfoddol eraill wrth reoli ei asedau yn y dyfodol. Caiff y broses Trosglwyddo Asedau Cymunedol ei chefnogi lle bynnag y bydd hynny'n briodol.

*Fodd bynnag, rhaid aros i weld p'un a oes grwpiau yn bodoli sy'n dymuno ysgwyddo'r cyfrifoldeb o reoli ased, ond mae'n agwedd y mae'n rhaid ei hystyried mewn cynigion eiddo a defnydd tir hirdymor o'n hasedau.*

Rydym hefyd yn defnyddio'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sydd newid ei ffurfio fel cyfrwng i drafod gyda chyrff cyhoeddus eraill er mwyn agor trafodaethau ynglŷn â rhannu cyfleusterau.

## Ariannol

Mae'r rhagolwg ariannol yn parhau i fod yn anodd ac ar ben arbedion sylweddol sydd eisoes wedi'u cyflawni yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio'n galed i nodi arbedion sylweddol pellach er mwyn galluogi cyflawni cyllidebau cytbwys ar gyfer 2016/17 a 2017/18. Er mwyn sicrhau y gall ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig gyflawni arbedion, rydym wedi datblygu ac ymgynghori ynghylch egwyddorion arwain gyda'r cyhoedd, wedi'u hardystio gan aelodau, i helpu llunio strwythur o ran y modd y byddwn yn mynd ati i wneud yr arbedion effeithlonrwydd hynny. Ein hegwyddorion yw diogelu swyddi a'r gwasanaethau a ddarparwn, ceisio lleihau yn hytrach na dileu, a diogelu gwasanaethau llinell flaen ble bynnag y bo modd gan edrych ar ffyrdd newydd o gyflenwi gwasanaeth.

BYDD Y STRATEGAETH RHEOLI ASEDAU CORFFORAETHOL YN CEFNOGI'R PENDERFYNYDDION HYN.

Mewn oes o ansicrwydd ariannol, gall fod yn anodd i wasanaethau gynllunio, a gwybod pa asedau sydd eu hangen i gyflawni, ond mae'r strategaeth hon wedi'i seilio ar ymagwedd gyson, gorfforaethol a strategol at reoli'r asedau amrywiol, cydgrynhoi adnoddau, dileu dyblygu, gwella effeithlonrwydd, caffael a sefydlu safonau eiddo corfforaethol.

## Ble ydym ni nawr?

Mae'r strategaeth hon yn edrych ar y tymor hir (cymerwyd fel 10 mlynedd er bod arfer da yn awgrymu 25 mlynedd); pan fydd yr asesiad o'r boblogaeth wedi'i gwblhau, byddwn yn defnyddio hwnnw i adolygu'r tymor hwy, ond bydd angen i ni wneud mwy er mwyn

mabwysiadu dull mwy integredig o benderfynu ar flaenoriaethau ar y cyd gyda sefydliadau eraill. Mae amrywiaeth o'r boblogaeth yn cael ei chynnwys mewn rhai meysydd, fel ymgynghoriadau hamdden a gweithio gydag ysgolion, ond bydd angen i ni ehangu hyn a gwneud penderfyniadau mwy ymwybodol, yn enwedig o ran dod o hyd i atebion asedau ar y cyd â sefydliadau eraill y sector cyhoeddus. Deellir beth yw achosion craidd heriau rheoli asedau, ond mae atal materion neu adeiladu ar gryfderau asedau yn faes y mae angen ei ddatblygu ymhellach.

Mae'r Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol yn cysylltu â blaenoriaethau'r Cyngor ac yn helpu gwasanaethau i ddeall bod rhaid i'w gweledigaeth, ar adeg o gyfyngiadau ariannol difrifol, fod yn gyson â gallu'r cyngor i gynnal ei sylfaen asedau.

Mae'n atgoffa defnyddwyr asedau, wrth iddynt ddatblygu eu strategaethau/cynlluniau gwasanaeth eu hunain, mai'r darparwyr asedau yw'r rhanddeiliaid allweddol; wrth feithrin ymagwedd fwy cydlynus, ac o ganlyniad symud i ffwrdd oddi wrth "meddylfryd seilo", bydd strategaethau gwasanaeth priodol yn amlinellu gweledigaethau cytûn yn unol ag athrawiaeth y ddogfen hon, gan nodi p'un a yw'r asedau presennol yn bodloni'r angen presennol ac angen y dyfodol, a nodi unrhyw gamau cywiro angenrheidiol.

Felly, mae'r Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol yn rhoi ciplun o wasanaethau amrywiol, trefniadau llywodraethu, crynodebau o'r gwasanaethau amrywiol a'u categorïau asedau cysylltiedig; mae'n ymgorffori'r holl asedau ffisegol sy'n berchen i'r cyngor neu a brydlesir gan y cyngor, gan gynnwys asedau sylweddol ar y tir fel ffyrdd, mannau agored tai ac eiddo, ynghyd â'r holl offer, peiriannau a cherbydau, gan fod y cyngor yn buddsoddi cryn refeniw a chronfeydd cyfalaf i sicrhau bod ystod eang o asedau ar gael i gynnal darpariaeth gwasanaethau. Mae'r cyllidebau hyn yn darparu adnoddau i gefnogi gweithgareddau rheoli asedau, a chynhwysir gwybodaeth ariannu fanwl ar gyfer pob categori asedau yn y cynlluniau rheoli asedau unigol. Mae'n nodi hefyd lle mae gan y cyngor strategaethau/cynlluniau cyflenwi gwasanaethau priodol ar waith; lle nad oes ganddo, yr her fydd penderfynu p'un a oes angen strategaethau cefnogi ar yr asedau hynny, ac os felly, erbyn pryd y gellir eu datblygu.

Lluniwyd y ddogfen i gyfeirio darllenwyr at strategaethau a/neu gynlluniau cyflenwi gwasanaethau ategol; mae'n dangos sut mae dosbarthiadau asedau yn cyfrannu at y Strategaeth gyffredinol, gan helpu'r Cyngor i fodloni ei flaenoriaethau allweddol oherwydd, yn sgil natur eang ac amrywiol portffolio asedau'r cyngor, bydd gan bron pob dinesydd, ymwelydd, cyflogai a sefydliad ym Mwrdeistref Sirol Caerffili fynediad i asedau'r cyngor, boed yn ysgolion, parciau, ffyrdd a phontydd, neu wefan y cyngor.

Felly, bydd angen darparu mwy o wybodaeth am grwpiau cwsmeriaid targed mewn cynlluniau rheoli asedau unigol sy'n briodol i Strategaeth Rheoli Asedau effeithiol. Dylai'r weledigaeth gytûn am i wasanaeth lwyddo nodi'r asedau sydd eu hangen dros gyfnod. Gyda hynny yn ei le, gall darparwyr asedau

- gydweddu'r ddarpariaeth bresennol gyda'r angen,
- nodi bylchau a
- chynllunio buddsoddi neu dadfuddsoddi asedau yn y dyfodol sy'n rhan o ddarpariaeth gwasanaeth sy'n gwella'n barhaus.

## Strategaethau Gwasanaeth

Mae'n bwysig nodi, nid yn unig *na* ddylid dogfennu strategaethau unigol ffurfiol dim ond er mwyn "cael strategaeth" ond hefyd ysgrifennu strategaeth yw cychwyn y broses a bod adolygiadau rheoli yn y dyfodol o gyfredolrwydd strategaethau yn bwysig iawn.

Er nad oes ganddo Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol ysgrifenedig ar waith, mae'r cyngor wedi gallu gwneud cyfraniadau sylweddol at gyflawni blaenoriaethau a deilliannau

corfforaethol trwy'r rheolaeth ar ei asedau. Er enghraifft, mae'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif wedi gweld gwelliannau aruthrol yn ansawdd ein hysgolion cynradd a'n hysgolion uwchradd. Yn ogystal, mae'r "Adroddiad o Gyflwr yr Ystad", a gynhyrchwyd gan yr adran Gwasanaethau Eiddo, yn crynhoi effaith bresennol strategaeth resymoli eiddo'r cyngor.

**Eiddo (Tir ac Adeiladau):**

Mae'r Cyngor yn berchen ar, ac yn cynnal a chadw, 833 o adeiladau ar 364 o safleoedd (fel ym mis Chwefror 2016). Yn gyffredinol, mae'r cyngor yn rheoli rhyw 8,500 erw o dir ac adeiladau, gyda chyfanswm gwerth llyfr net o £717m (fel ym mis Mawrth 2015). **Mae'r gwasanaeth wedi datblygu Strategaeth Rheoli Asedau (Tir ac Eiddo)**, a'i phrif flaenoriaethau yw:

- Datblygu gweledigaeth 5 a 10 mlynedd ar gyfer asedau eiddo drwy'r Grŵp Rheoli Asedau arfaethedig, a chyfleu'r strategaeth a'r weledigaeth ar draws yr awdurdod. Mae opsiynau posibl a nodwyd yn cynnwys:
  *Lleihau'r portffolio drwy wneud y gorau o ofod.*
  *Lleihau'r portffolio drwy ailfodelu gwasanaethau.*
  *Lleihau'r portffolio trwy ddefnydd ar y cyd gyda gwasanaethau mewnol ac allanol.*
  *Trosi rhydd-ddaliadau yn lesddaliadau.*
  *Hyrwyddo ymgysylltiad Cymunedol trwy Drosglwyddo Asedau Cymunedol.*
  *Lleihau costau drwy welliannau o ran effeithlonrwydd ynni.*
- Sefydlu Grŵp Rheoli Asedau corfforaethol, gyda threfniant Landlord/Tenant lle mae Gwasanaethau Eiddo yn gweithredu fel Landlord a bod yr holl ddefnyddwyr adeiladau/tir yn denantiaid a bod y cyllidebau eiddo yn cael eu trosglwyddo i Wasanaethau Eiddo.
- Hyrwyddo proses trosglwyddo'r holl eiddo yn raddol i bortffolio corfforaethol canolog a, lle bo'n briodol, personél y gyfarwyddiaeth a gyflogir i reoli materion eiddo. Dechreuodd y broses drosglwyddo gyda Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Ebrill 2012. Byddai gwaith cynnal a chadw adweithiol yn cael ei ganoli a byddai fframwaith o gyflenwyr yn cael ei greu.
- Cynhyrchu cynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaeth unigol trwy gyfarfodydd rheoli asedau rheolaidd gyda thimau rheoli cyfarwyddiaeth er mwyn sicrhau bod darpariaeth eiddo yn cael ei chynllunio mewn ffordd holistaidd.
- Bydd y cynlluniau'n cysylltu â strategaethau gwasanaeth (e.e. cynllunio Trosglwyddo Asedau Cymunedol).
- Sicrhau bod y Strategaeth Asedau Cyfalaf 3 blynedd wedi'i chysylltu â Chynllun Ariannol Tymor Canolig y cyngor.

**Addysg a Dysgu Gydol Oes**

*Ysgolion*:

Mae'r ystâd ysgolion yn cynnwys 14 ysgol uwchradd, 75 ysgol gynradd, 1 ysgol arbennig ac uned cyfeirio disgyblion (Y Ganolfan Ddysgu). Mae'r Gyfarwyddiaeth yn rheoli ystod o strategaethau cynllunio lleoedd ysgol, ynghyd â rhaglen ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru, yn ogystal â rheoli rhaglen cyfalaf ysgolion flynyddol.

**Caiff Cynlluniau Rheoli Asedau Ysgolion a Chynlluniau Lleoedd Ysgol eu diweddaru o dro i dro a'u hadrodd i'r Pwyllgor Craffu**. Y prif flaenoriaethau yw:

- Heriau a wynebir yn sgil llai o adnoddau ariannol.
- Yr angen i leihau lleoedd gwag yn ein hysgolion, gyda ffocws penodol ar ysgolion uwchradd. Bydd disodli ysgolion cyfun Oakdale a Phontllanfraith gydag Ysgol Uwchradd newydd Islwyn yn cynorthwyo'r broses hon.

- Mae cynnydd ym mhoblogaeth ragamcanol disgyblion Ysgolion Cynradd yn arwain at ostyngiad yn nifer y lleoedd gwag.
- Cyflwynwyd heriau sylweddol i gynllunio lleoedd ysgol yn y dyfodol gan gynigion Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) y Cyngor hyd at 2031.

*Y Gwasanaeth Llyfrgelloedd*

Mae 18 o Lyfrgelloedd sy'n cynnig amrywiaeth eang o gyfleusterau a rhwydweithiau cymunedol. Mae 13 ohonynt yn llyfrgelloedd wedi'u hadeiladu'n bwrpasol, ac mae 4 o'r rhain wedi'u lleoli o fewn neu ochr yn ochr â chyfleusterau cymunedol eraill. Mae'r 5 arall yn addasiadau o adeiladau presennol. Mae darpariaeth gwasanaethau cwsmeriaid wedi'u cyd-leoli mewn 5 llyfrgell.

**Mae'r Gwasanaeth yn gweithio o fewn Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Llywodraeth Cymru 2014-2017**, sy'n cynnwys nifer o feysydd asesu newydd gyda ffocws ar ddeilliannau a mesurau ansoddol yn ychwanegol at safonau cyrhaeddiad mwy traddodiadol

Mae'r 5$^{ed}$ Fframwaith hwn yn cynorthwyo'r Awdurdod i weithio tuag at ei Amcanion Cydraddoldebau Strategol, yn benodol:

- Cynllun Cydraddoldeb Strategol ACS 3- Mynediad Corfforol
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol ACS 4- Cyfathrebu
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol ACS 5- Ymgysylltu a Chyfranogi

Mae hefyd yn cysylltu'n agos â 'Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli: Y fframwaith datblygu strategol ar gyfer llyfrgelloedd Cymru 2012-2016'.

*Canolfannau Cymunedol*

Mae 38 o ganolfannau cymunedol yn y rhwydwaith a gynorthwyir, ac o'r rheiny nid yw'r Cyngor yn berchen ar 3 ohonynt. Mae ystod o gyfleusterau cymunedol eraill yn defnyddio'r canolfannau hyn.

Yn 2014, fe wnaeth Aelodau gefnogi cynnig i sefydlu Gweithgor i archwilio ymhellach lleihau'r rhwydwaith o ganolfannau cymunedol, gan gynnig canolfannau addas i grwpiau lleol trwy drosglwyddo asedau. Mae'r grŵp hwn wedi sefydlu bod y model presennol yn gweithio'n dda, ond y dylid ystyried cyfleoedd i resymoli fel bo'n briodol.

*Gwasanaeth Ieuenctid*

Mae hwn yn ddarparwr addysg statudol, yn cynnwys dros 200 o staff ac yn ymgysylltu â rhyw 20% o'r boblogaeth darged bob blwyddyn. Darperir y gwasanaethau hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd gan yr Awdurdod ac mewn partneriaeth â darparwyr eraill.

Caiff Gwaith Ieuenctid ei ddarparu'n uniongyrchol gan yr Awdurdod trwy rwydwaith o 28 o glybiau ieuenctid (cyfuniad o leoliadau yn cynnwys safleoedd ysgolion, canolfannau cymunedol a chyfleusterau pwrpasol) a phrosiectau a ariennir yn allanol yn bennaf, sy'n gyson â chwricwlwm gwasanaeth ieuenctid ac yn cael eu cefnogi ganddo.

Nid yw absenoldeb strategaeth ffurfiol yn dystiolaeth o absenoldeb cynllunio da ac yn wir gellid dweud bod gwasanaeth aeddfed mewn cyflwr sefydlog a chadarn[4].

*Strategaeth Rheoli Asedau Dysgu Oedolion 2016-2020*

Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaeth Addysg Oedolion yn gweithredu ar draws y fwrdeistref sirol o ystod o leoliadau, ac nid yw pob un ohonynt yn addas i'r diben.

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn cynnal cyrsiau mewn cyfleusterau eraill ledled y fwrdeistref, gan gynnwys y rhai a restrir isod:

---

[4] "NID yw absenoldeb tystiolaeth yn dystiolaeth o absenoldeb"


- Llyfrgelloedd
- Adeiladau cymunedol
- Canolfannau Plant Integredig
- Ysgolion
- Neuaddau Eglwys
- Canolfannau Hamdden
- Canolfannau Cymunedol

Mae llyfrgelloedd yn cynnal cyrsiau yn rhad ac am ddim i Dysgu Oedolion ac mae'r cytundeb hwn yn gweithio'n dda i'r ddau wasanaethu. Ar y cyfan, mae lleoliadau eraill yn codi tâl am ddefnyddio ystafelloedd a lleoedd.

Caiff cyllid Dysgu Oedolion ar gyfer cyrsiau ei ddyfarnu bob blwyddyn ac nid oes unrhyw sicrwydd o barhad cyllid. Dyfernir cyllid Teuluoedd yn Gyntaf ar sail 3 blynedd, a dyfernir cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar sail 3 blynedd i gychwyn, gydag estyniad posibl o 2 flynedd; nid oes unrhyw sefydlogrwydd yn y cyllid hwn a gall newid o flwyddyn i flwyddyn ac o brosiect i brosiect. Mae'n rhaid i'r gwasanaeth addasu'n barhaus i'r cyllid sydd ar gael ar gyfer pob blwyddyn academaidd. Nid oes unrhyw ddarpariaeth cyllideb ar gyfer adeiladau, ac eithrio gwaith cynnal a chadw ac atgyweiriadau.

**Gweledigaeth i'r dyfodol**

Byddai'r gwasanaeth yn hoffi symud i "fodel canolfan gwasanaeth a lleoliadau cysylltiedig" (gweler ar y dde). Byddai'r ganolfan wedi'i lleoli'n ganolog yn y fwrdeistref a byddai'n cynnwys staff allweddol ar gyfer pob maes gweithredol y gwasanaeth, ynghyd â'r holl adnoddau sydd eu hangen. Mae pob agwedd ar Addysg Oedolion yn gweithio mewn partneriaeth â'i gilydd i ategu a gwella profiad y dysgwr.




Byddai angen i'r Ganolfan gynnal tua 8 aelod o staff amser llawn ac 20 aelod o staff rhan-amser mewn 3 gofod swyddfa. Byddai angen iddi hefyd ddarparu mannau cyfarfod i staff a chyfranogwyr gweithrediadau, ynghyd â 4-6 o leoedd addysgu a dysgu addas. Byddai angen i'r ganolfan fod yn addas i'r diben yn yr oes ddigidol, gyda thechnoleg ddiweddar. Byddai'r lleoliadau cysylltiedig wedi'u lleoli ledled y fwrdeistref mewn lleoliadau sy'n hawdd i'r dysgwyr eu cyrraedd, a byddai'r rhain yr un fath i raddau helaeth ag y mae'r gwasanaeth yn gweithredu ohonynt ar hyn o bryd.

**Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh):**

Mae'r gwasanaeth yn darparu amrediad cymhleth o wasanaethau sy'n cyflawni gofynion technoleg busnes y sefydliad o ddydd i ddydd, gan gynnwys gweithredu a chefnogi'r holl gymwysiadau caledwedd, rhwydwaith, telathrebu a meddalwedd busnes, yn ogystal â chefnogi gweithredu technolegau newydd i gynorthwyo cyflenwi gwasanaethau a gwella gwasanaethau ar draws y busnes. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi tua 4,500 o ddyfeisiau corfforaethol a 10,000 arall o ddyfeisiau ysgol, yn ogystal â rhyw 150 o gymwysiadau meddalwedd gwahanol. Ar gyfartaledd, mae'r gwasanaeth yn derbyn dros 330 o alwadau am gymorth bob dydd.

Er nad yw'n rhan o'n hasedau, mae Gwasanaethau TG yn darparu gwasanaethau cynnal canolfan ddata ar gyfer Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Blaenau Gwent, gan redeg eu gwasanaethau Cyflogres ac Adnoddau Dynol.

Bydd darpariaeth TG yn annatod i weithredu gweithio ystwyth.

Mae strategaeth TGCh newydd sy'n cynnwys ymagwedd yr Awdurdod at wella ei atebion digidol presennol wrthi'n cael ei drafftio ar hyn o bryd.

**Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden**

*Rheoli'r Fflyd*

**Mae'n gweithio tuag at 'wasanaeth a reolir' a fydd yn gweld contract gyda chwmnïau allanol i ddarparu ac ailgyflenwi ein gofynion cerbydau a fydd yn cadw ein stoc cerbydau yn gyfredol.**

Rydym yn cydweithio gyda Chynghorau Blaenau Gwent a Thorfaen ar gyfer Hyfforddiant Cyfnodol Tystysgrif Cymhwysedd Proffesiynol i Yrwyr (CPC).

Ar hyn o bryd, mae'n wasanaeth adfer costau'n llawn gyda throsiant o dros £4miliwn yn ymwneud yn bennaf â thanwydd, llogi cerbydau allanol, prydlesu a gwasanaethau rheoli'r fflyd a chefnogaeth. Mae tua 500 o gerbydau gan y cyngor. Mae'r rheolaeth bresennol ar asedau yn canolbwyntio ar addasu arferion gweithio i newidiadau yn y ddeddfwriaeth, fel sicrhau bod dulliau cydymffurfio amgen yn cael eu rhoi ar waith, gan fod rhwydi diogelwch wedi'u dileu wrth i'r DVLA symud y systemau ar y we.

*Gwasanaethau Parciau a Phrofedigaeth*

Mae'n rheoli 104 o gaeau chwarae ag offer, 10 o waliau cicio, 20 o lochesi ieuenctid, 11 parc sglefrio, 2 gampfa awyr agored a 31 o ardaloedd gemau aml-ddefnydd. Llwyddodd pump o'r caeau chwarae hyn i gadw Dyfarniadau Diogelwch Chwarae RoSPA[5] yn ystod 2015 -16. Mae'r gwasanaeth yn rheoli nifer o gaeau chwaraeon ffurfiol ar draws y fwrdeistref sy'n cynnwys caeau rygbi a phêl-droed (yn cynnwys defnydd deuol), criced, lawntiau bowlio, cyrtiau tennis a thrac athletau.

Mae tri pharc gan y gwasanaeth (Parc Morgan Jones, Caerffili, Y Wern yn Nelson a Pharc Waunfawr, Crosskeys) sydd wedi'u cydnabod yn fannau rhagorol ac wedi ennill statws y Faner Werdd, yn ogystal â 25 o barciau trefol eraill ar draws y fwrdeistref sirol.

Yn ogystal, mae'n goruchwylio darpariaeth o ryw 80 o randiroedd ledled y fwrdeistref sirol, o dan reolaeth dau ffederasiwn (Ffederasiwn Rhandiroedd Cwm Rhymni a Ffederasiwn Rhandiroedd Dwyrain Caerffili).

**Y strategaeth yw cynnal safonau presennol trwy ddefnyddio adnoddau'n ddoeth.**

Mae'r gwasanaeth, sy'n gweithredu o dan y 'Siarter i'r Rhai Mewn Profedigaeth', ac sydd â gwobr efydd ICCM[6] ar hyn o bryd, yn rheoli deg o fynwentydd trefol hefyd, sy'n cwmpasu tua 29 hectar o dir ar draws y fwrdeistref sirol. Mae'r gwasanaeth yn delio â rhyw 800 o gladdedigaethau y flwyddyn, ac mae pump o'r mynwentydd hyn wedi'u hehangu yn llwyddiannus dros y blynyddoedd diwethaf (Abercarn, Danygraig, Rhymni, Gelligaer a Bedwellty). Mae dau gapel yn y mynwentydd hyn, ac mae un ohonynt yn weithredol ac ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio ar gyfer gwasanaethau cyn claddedigaeth.

**Mae Gwasanaethau Parciau a Phrofedigaeth yn cynnig i sicrhau tir o fewn basn Caerffili i ddatblygu 11[eg] safle, yn ogystal â gwneud estyniadau pellach ym mynwentydd Brithdir, Bedwas, Rhymni an Bedwellty dros y blynyddoedd i ddod.**

*Gwasanaethau Hamdden*

Mae gan y Gwasanaethau 11 o ganolfannau hamdden, ac mae wyth ohonynt ar safleoedd ysgol. Mae'r Cyngor wedi cynnal arolwg manwl o gyflwr ei 11 o ganolfannau hamdden gan raddio tri yn dda, pump yn foddhaol a thri yn wael. Rydym wedi amcangyfrif mai cost cynnal a chadw flynyddol ein canolfannau hamdden yw £3.3 miliwn.

---

[5] Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau

[6] Y Sefydliad Rheoli Mynwentydd ac Amlosgfeydd

Ar hyn o bryd, mae'r awdurdod yn gweithio ar strategaeth gyffredinol ar gyfer chwaraeon a hamdden. Pan fydd wedi'i chwblhau, nes ymlaen yn 2016/17, bydd y ddogfen hon yn amlinellu gweledigaeth strategol ar gyfer darpariaeth gwasanaethau chwaraeon a hamdden yn y dyfodol, yn ogystal â mynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r adeiladau a chyfleusterau eraill sydd eu hangen i gyflawni'r strategaeth honno yn effeithiol.

*Rheoli Adnoddau Dŵr a Glanhau Strydoedd a Glanhau Amgylcheddol*
Mae'r rhain yn swyddogaethau llinell flaen allweddol, ac yn ymwneud â'r canlynol:

- Gorsaf Drosglwyddo Gwastraff ac Ailgylchu sydd ar raddfa ddiwydiannol yn Full Moon, Crosskeys, sy'n derbyn gwastraff trefol a gesglir gan gerbydau casglu'r Awdurdod bob diwrnod o'r wythnos weithio. Mae 50,000 o dunelli yn mynd drwy'r system yn flynyddol.
- Chwech o Ganolfannau Amwynder Dinesig/Ailgylchu Gwastraff Cartrefi (gyda staff) (dan drwydded Cyfoeth Naturiol Cymru) sy'n agored i'r cyhoedd drwy'r flwyddyn ac yn gweithredu ar benwythnosau.
- Rhwydwaith o seilwaith ar ffurf (nifer o filoedd o) finiau sbwriel, cyfleusterau ailgylchu 'wrth symud' i'r cyhoedd, a chompowndiau storio biniau.
  Mae'r seilwaith hwn yn cael ei ddefnyddio 24 awr 365 diwrnod y flwyddyn.
- Mae pump o Doiledau Cyhoeddus yn cael eu gweithredu a'u cynnal a chadw ar hyn o bryd.

Fel rhan o'i swyddogaeth reoleiddio mewn perthynas â Hen Safleoedd Gwaredu Gwastraff, mae'r gwasanaetha yn cynnal safle tirlenwi (a reoleiddir gan drwydded Cyfoeth Naturiol Cymru) sy'n cynnwys stac fflêr weithredol, ynghyd â generadur micro sy'n dal y gronfa nwy methan ac yn cynhyrchu ynni i'r Grid Cenedlaethol.

Nid yw absenoldeb unrhyw strategaeth ffurfiol ar gyfer y gwasanaeth yn dystiolaeth o absenoldeb cynllunio da ac ystyrir ei fod mewn cyflwr sefydlog a chadarn

**Priffyrdd, Trafnidiaeth a Pheirianneg**

Mae asedau priffyrdd yn dirywio'n araf; **mae gennym Gynllun Rheoli Asedau Priffyrdd sefydledig, a lluniwn adroddiad statws blynyddol mewn perthynas ag ef.**

Ni ellir dangos effaith unrhyw lefel o fuddsoddiad penodedig yn y tymor byr; mae ein hadroddiad blynyddol yn cynnwys rhagolygon 20 mlynedd i alluogi gwneud penderfyniadau gyda dealltwriaeth o'u goblygiadau hirdymor.

Yn Ebrill 2016 gwerth yr ased Priffyrdd, cost cyfnewid gros oedd £3.424bn a'r gost cyfnewid wedi'i dibrisio oedd £3.218bn. Cyfrifwyd dibrisiad blynyddol[7] o £17.2m.

| Hyd Priffyrdd Cyhoeddus (km) | | |
|---|---|---|
| | Trefol | Gwledig |
| A Cefnffyrdd | 0.00 | 4.50 |
| A Ffyrdd Sirol | 30.40 | 66.2 |
| B | 52.30 | 11.3 |
| C | 76.30 | 76.1 |
| Is-ffyrdd | 688.9 | 163.2 |
| Cyfanswm | 847.90 | 321.30 |
| Cyfanswm Ffyrdd â Wyneb Caled | 1,169.20 | |

Fel ar 1 Ebrill 2016, roedd 1,169.20km o hyd priffyrdd cyhoeddus yn y Fwrdeistref Sirol, gyda 98.2km arall o lwybrau troed â wyneb caled, a 66.1km o Lwybrau Beiciau pwrpasol.

Gellir dangos graddfa'r ased Priffyrdd drwy grynhoi rhai ffigurau eraill ar y prif gategorïau asedau a gwasanaethau a ddarperir:

- 27,150 o oleuadau stryd
- 2,624 o arwyddion (wedi'u goleuo), a rhyw 6,000 (heb eu goleuo)
- 32,000 o ylïau
- 71 o gyffyrdd/croesfannau â signalau
- 1,250 y flwyddyn o geisiadau cynllunio
- 68km o lwybrau beiciau
- 1,675 o gwlferi (hyd at 900mm o ddiametr)
- Tua 420km o rwydweithiau ffyrdd yn cael eu halltu a'u graeanu yn ystod dywydd drwg
- 862 o finiau halen parhaol, ynghyd ag 17 o finiau tymhorol
- 112 o Bontydd Ffyrdd
- 90 o Bontydd Troed
- 22 o Adeileddau "Anarferol"
- 625 o Waliau Cynnal
- 1 Gantri Uchder, Arwydd a Signal
- 246 o Gwlferi (dros 900mm o ddiametr)
- 13 o Danlwybrau

**Cartrefi Caerffili**

Ar hyn o bryd, mae 10,862 o gartrefi yn berchen i'r cyngor a 991 o garejys. Ar gyfartaledd, rydym yn gosod 1161 o dai y flwyddyn (cyfanswm yr eiddo wedi'u gosod rhwng 01/04/14 - 31/03/15). Mae 34 o gynlluniau tai lloches, 1 cynllun gofal ychwanegol ac 17 o gymdeithasau tenantiaid a phreswylwyr cydnabyddedig. Rydym hefyd yn darparu gwasanaethau i 417 o lesddeiliaid.

[7] Dibrisiad blynyddol yw'r swm cyfartalog y bydd ased yn dibrisio mewn blwyddyn os nad oes buddsoddiad i adnewyddu'r ased.

**Ein strategaeth i gyflawni'n unol â Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) ar 10,862 o dai erbyn 2019/20 yw**

1 Trwy gyfuniad o staff mewnol a chontractwyr allanol; a

2 Trwy gydlynu â rhaglenni a mentrau eraill i fynd i'r afael a'r heriau cymdeithasol ac economaidd ar ystadau'r cyngor.

Mae hon yn rhaglen gyfalaf flynyddol gwerth miliynau o bunnoedd (yn 2015/16 mae'n £36m, £200m hyd at 2019/20) a gyflawnir gan Atgyweiriadau Tai (yn cynnwys 143 o aelodau staff, yn cynnwys 114 o weithwyr cynnal a chadw aml-grefft, gyda throsiant blynyddol o £7.2 miliwn). Mae cyllideb bellach o ryw £2.74m, sy'n ymwneud â phrosiectau ymateb ac mae'n defnyddio contractwyr allanol lle bo angen.

**Adnoddau Dynol**

Fe wnaeth y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 27 Gorffennaf 2016, gytuno ar Strategaeth Adnoddau Dynol y Cyngor 2016 – 2020.

Mae'r cyngor yn cyflogi bron i 9,000 o bobl ac mae'n un o'r cyflogwyr mwyaf yn y Fwrdeistref; dylid cydnabod maint yr ased hwnnw yng nghyd-destun Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol

Wrth i'r Cyngor wneud defnydd gwell o'i safleoedd, gan gynnwys lleihau neu wneud defnydd mwy effeithlon o'i ofod presennol, gall yr angen i hyrwyddo ac annog diwylliant o weithio ystwyth gynorthwyo'r cyngor i gyflawni ei flaenoriaeth fforddiadwyedd.

Bydd newid diwylliannol i weithio mewn ffordd fwy ystwyth yn effeithio ar staff ac yn mynnu meddwl mewn ffyrdd newydd; bydd ymddiriedaeth, er enghraifft, yn dod yn werth pwysicach. Gallai gweithio ystwyth olygu bod angen llai o staff ar safle, a allai arwain at anghenion eiddo llai neu fwy o fannau gweithio dros dro, a byddai poblogaeth lai 'teithio i'r gwaith' yn cefnogi'r agenda lleihau carbon, yn ogystal â rhydau mannau parcio ceir.

Mae hwn yn faes sy'n mynnu gweithio cydgysylltiedig rhagorol i bob parti weithio trwy feysydd fel darpariaeth TG, ystyried gofod, a chynllunio capasiti yn ychwanegol at feysydd 'meddalach' fel diwylliant, ac ymddiriedaeth.

**Cynllunio ac Adfywio**

*Datblygu Masnachol*

Mae gennym gyfrifoldeb deublyg o dan y pennawd hwn:

1. Cymorth Busnes a Chyllid (Portffolio Eiddo Diwydiannol a Swyddfa)
2. Adfywio Trefol

Cymorth Busnes a Chyllid (Portffolio Eiddo Diwydiannol a Swyddfa)

Rydym yn gyfrifol am farchnata rhyw 92 erw o dir datblygu yn Oakdale.

Rydym hefyd yn rheoli portffolio o'r hyn mae'r Cyngor yn berchen arno, sef mwy na 250 o eiddo swyddfa ac eiddo diwydiannol mewn 16 o leoliadau ar draws y Fwrdeistref Sirol; caiff y rhan fwyaf eu gosod i denantiaid y sector preifat ar brydlesi atgyweirio llawn. Mae'r eithriadau i hyn ar gampws Tredomen, yn cynnwys:

- Canolfan Busnes a Thechnoleg Tredomen,
- Canolfan Arloesi a Thechnoleg Tredomen, a
- Phorth Tredomen

Mae swyddfeydd yn yr adeiladau hyn yn cael eu gosod fel unedau a reolir, gyda Gwasanaethau Cyngor yn rhai ohonynt.

O ystyried mai'r deiliad sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r rhan fwyaf o'r portffolio, mae costau blynyddol yn gymharol isel, gyda chyllideb ar gyfer 2016-17 wedi'i gosod ar

£186,000 ar gyfer gwaith cynnal a chadw cyffredinol, a £40,000 arall i gynnal a chadw'r ardaloedd cymunedol ar yr ystadau.

Mae graddfeydd meddiannaeth, fel yr oeddent ar 1 Medi 2016, bron yn 98%, gydag ond dwy uned ddiwydiannol 5,000ft$^2$ ar gael yn Oakdale, a dwy swyddfa ar gael ym Mhorth Tredomen.
Yn gyffredinol, yr amcangyfrif incwm ar gyfer y portffolio yn 2016-17 yw £2,242,000.

Mae graddfa feddiannaeth uchel, ynghyd â rhestri aros hir (yn enwedig am unedau diwydiannol bach), yn hyrwyddo **ein gweledigaeth o weithio gyda datblygwyr a thirfeddianwyr y sector preifat i ddod â mwy o safleoedd diwydiannol a swyddfeydd bach ymlaen mewn lleoliadau ledled y Fwrdeistref Sirol** (yn ogystal â sicrhau bod unrhyw geisiadau yn y dyfodol am gyllid adfywio a datblygu economaidd ar raddfa fawr yn cynnwys cymorth ar gyfer adeiladau o'r math hwn)

Adnewyddu Trefol

Rydym yn ymwneud yn bennaf â'r agweddau ffisegol ar adfywio trefol, yn canolbwyntio ar ganolfannau trefi a phentrefi.

Rydym hefyd yn gweinyddu nifer fach o Grantiau Gwella Masnachol i fusnesau lleol ar gyfer gwelliannau i flaenau siopau.

Rydym wedi denu cyllid sylweddol y sector cyhoeddus a'r sector preifat ar gyfer adfywio Bargoed, gan gynnwys datblygiad manwerthu lle cymerom brif brydles ar 7 o unedau manwerthu er mwyn 'tanysgrifennu'r' datblygiad. Ein strategaeth wreiddiol oedd gosod yr unedau a gwerthu'r buddsoddiad ymlaen, ond gan gydnabod marchnadwyedd cyfyngedig prydles o'r fath yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, rydym wedi ailbennu diben ein model i fynd i'r afael â thwf refeniw dros gyfnod ein prydles.

Mae'r rhain yn wasanaethau aeddfed, mewn cyflwr sefydlog a chadarn; nid yw absenoldeb strategaeth ffurfiol yn dystiolaeth o absenoldeb cynllunio da; **gan gydnabod y bydd ein cyllidebau o dan fwy a mwy o bwysau, ein cynllun strategol yw cynhyrchu incwm o'n portffolio.**

*Diwylliant a Threftadaeth*

Mae'r Uned Cyrchfannau a Digwyddiadau yn gyfrifol am farchnata'r fwrdeistref sirol a datblygu ei Atyniadau Cyrchfannau (gan gynnwys y Gwasanaeth Amgueddfeydd a Threftadaeth). Rydym yn gweithredu 5 o gyfleusterau ymwelwyr:

- Maenordy Llancaiach Fawr
- Canolfan Ymwelwyr a Gwersyllfa Rhodfa Coedwig Cwmcarn
- Canolfan Ymwelwyr Caerffili
- Amgueddfa Tŷ Weindio Tredegar Newydd
- Sefydliad y Glowyr Coed Duon

Rhyw £381,000 (2015/16)yw costau rhedeg blynyddol yn gysylltiedig ag eiddo ar gyfer y pum cyfleuster.

Mae'r sylfaen asedau yn amrywio ar draws adeiladau modern (fel Canolfan Ymwelwyr Coedwig Cwmcarn sydd â graddfa BREEAM[8] uchel), adeiladau hŷn fel Sefydliad y Glowyr Coed Duon (a adeiladwyd yn y 1920au) a Maenordy Llancaiach Fawr (a adeiladwyd yn yr 16$^{eg}$ ganrif). Yn ddiweddar, rydym wedi denu cyllid grant o £1m o

[8] Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu [**B**uilding **R**esearch **E**stablishment **E**nvironmental **A**ssessment **M**ethod], a gyhoeddwyd gyntaf gan y Sefydliad Ymchwil Adeiladu ym 1990, yw dull mwyaf sefydledig y byd o asesu, graddio ac ardystio cynaliadwyedd adeiladau

Gronfa Treftadaeth y Loteri i ymgymryd â phrosiect ym Maenordy Llancaiach Fawr, gan alluogi mynediad i drydydd llawr yn yr adeilad.

Ein prif nod yw gwella cyfleoedd cyflogaeth lleol, gan gynnwys mynediad i gyfleoedd ar draws ardal ddaearyddol ehangach, a'n hamcanion busnes penodol yw:

- Cynyddu nifer y twristiaid sy'n ymweld â Bwrdeistref Sirol Caerffili.
- Galluogi pawb i fod yn weithgar yn greadigol

Mae'r rhain yn cefnogi cyfeiriad strategol y Rhaglen Adfywio, 'The Smart Alternative', ac fe'i trafodir yn fanylach yn ein Cynllun Gwella Gwasanaethau

**Ein cynllun strategol yw datblygu fframwaith 'Rheoli Cyrchfannau' sy'n nodi Diwylliant a Threftadaeth fel profiad cynnyrch allweddol sydd gan y fwrdeistref sirol i'w gynnig i ymwelwyr.**

*Parciau Gwledig*

Yn ychwanegol at barciau gwledig ym Mharc Cwm Daran, Parc Coed Tir Bargoed, Parc Penallta, Llyn Pen y Fan a Dyffryn Sirhywi, mae'r Gwasanaeth yn rheoli Gwarchodfa Natur Genedlaethol, nifer o hen domenni glo, a chyrff dŵr eraill a ddefnyddir at amrywiaeth o ddibenion, ond fe'u targedir yn bennaf at hamdden, bioamrywiaeth a rheoli'r dirwedd. Mae llawer o'r portffolio yn gysylltiedig â hen weithfeydd glo, ac yn cwmpasu cyfanswm o dros 2,500 o erwau, o fewn y sylfaen asedau amrywiol hon, ceir nifer o gyfleusterau ymwelwyr (a seilwaith cysylltiedig), adeiladau rhestredig, ac adeileddau eraill.

Mae cyllidebau craidd yn hwyluso rheoli a chynnal a chadw'r safleoedd hyn er ein bod wedi llwyddo i ddenu symiau sylweddol mewn cymorth grant, yn gyfalaf a refeniw, i ategu'r cyllidebau hyn.

Mae ein gwasanaeth ni yn wasanaeth aeddfed, mewn cyflwr sefydlog a chadarn; nid yw absenoldeb strategaeth ffurfiol yn dystiolaeth o absenoldeb cynllunio da; **gan gydnabod y bydd cyllidebau o dan fwy a mwy o bwysau, ein cynllun strategol yw defnyddio safleoedd i gynhyrchu incwm o'n portffolio.**

Mae gennym gynlluniau rheoli neu gynlluniau datblygu ar waith ar gyfer y prif safleoedd, yn amrywio o ran manylion yn ôl cyfleuster a defnydd. Er enghraifft:

- Mae Parc Cwm Daran wedi ennill achrediad Y Faner Werdd ac mae'r cynllun rheoli yn adlewyrchu defnydd gan ymwelwyr yn bennaf
- Mae rheoliadau rheoli tir penodol manwl ar gyfer bioamrywiaeth gan Warchodfa Natur Genedlaethol Aberbargoed
- Mae nifer o'r cronfeydd dŵr yn destun rheolaeth a rheoli o dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975.
- Mae Hawliau Tramwy Cyhoeddus (dros 500 milltir ohonynt), yn cael eu rheoli'n bennaf drwy'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy; y duedd yw bod y rhain heb fod yn berchen i'r awdurdod.

Rydym yn gwneud y mwyafrif o'r gwaith rheoli yn fewnol, am fod gennym yr arbenigedd, er bod rhaid trefnu rhai gweithiau arbenigol yn allanol.

## Perchenogaeth a Chwmpas y Strategaeth

Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yw perchennog y Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol ac mae'n gyfrifol am reoli asedau yn effeithiol ac effeithlon ar lefel gorfforaethol.

I gefnogi rôl y Cyfarwyddwr, mae gan bob categori asedau Swyddog Arweiniol Asedau sydd â'r meysydd cyfrifoldeb canlynol:

- Paratoi cynlluniau rheoli asedau lle bo'n briodol
- Cydlynu achosion busnes ar gyfer buddsoddi
- Monitro a rheoli perfformiad
- Monitro'r defnydd o adnoddau

Mae Swyddogion Arweiniol Asedau naill ai'n Benaethiaid Gwasanaeth neu maent yn adrodd yn uniongyrchol i Bennaeth Gwasanaeth er mwyn sicrhau bod cyfrifoldebau rheoli o ddydd i ddydd yn glir, a bod penderfyniadau a ddirprwyir yn cael eu gwneud ar y lefel briodol. Mae'r Swyddogion Arweiniol Asedau fel a ganlyn:

| **Swyddogion Arweiniol Asedau** | | |
|---|---|---|
| **Categori Asedau** | **Swyddog Cyfrifol** | **Strategaeth ar Waith** |
| **Eiddo** | **Pennaeth Eiddo** | **Oes** |
| **Ysgolion** | **Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Ysgolion yr 21ain Ganrif** | **Oes** |
| **Gwasanaeth Llyfrgelloedd** | **Uwch Reolwr (Llyfrgelloedd a Chanolfannau Cymunedol)** | **Oes** |
| **Canolfannau Cymunedol** | **Uwch Reolwr (Llyfrgelloedd a Chanolfannau Cymunedol)** | **Nac oes**[9] |
| **Gwasanaeth Ieuenctid** | **Uwch Reolwr Addysg Gymunedol** | **Nac oes** |
| **Addysg Oedolion** | **Uwch Reolwr Addysg Gymunedol** | **Nac oes** |
| **Priffyrdd ac Asedau Cysylltiedig** | **Pennaeth Gwasanaethau Peirianneg** | **Oes** |
| **TGCh** | **Pennaeth TGCh** | **Oes** |
| **Fflyd** | **Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden** | **Nac oes**[10] |
| **Gwasanaethau Hamdden** | **Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden** | **Nac oes**[11] |
| **Mannau Agored** (Parciau a chaeau chwarae) | **Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden** | **Oes** |
| **Tai** | **Pennaeth Gwasanaethau Tai** | **Oes (SATC)** |
| **Adnoddau Dynol** | **Pennaeth Adnoddau Dynol** | **Oes** |

[9] Adolygwyd y Gwasanaeth gan grŵp gorchwyl a gorffen Aelodau yn 2015.
[10] Mae'r awdurdod wrthi'n dyfarnu contract gwasanaethau 7 mlynedd a reolir.
[11] Mae'r awdurdod wrthi'n gweithio ar strategaeth gyffredinol ar gyfer chwaraeon a hamdden.

| | | |
|---|---|---|
| **Datblygu Masnachol** | **Pennaeth Adfywio a Chynllunio** | **Nac oes** |
| **Diwylliant a Threftadaeth** | **Pennaeth Adfywio a Chynllunio** | **Nac oes** |
| **Mannau Agored**<br>(Parciau Gwledig) | **Pennaeth Adfywio a Chynllunio** | **Nac oes** |

# Adran 2 | Deilliannau'r Strategaeth

Fel y nodwyd, gweledigaeth y cyngor ar gyfer rheoli asedau corfforaethol yw rheoli asedau yn effeithlon ac effeithiol i gefnogi cyflawni blaenoriaethau a deilliannau corfforaethol. Mae rheolaeth dda ar asedau yn darparu strwythurau a threfniadau llywodraethu priodol i sicrhau bod asedau'n cael eu defnyddio'n briodol i gefnogi cyflenwi gwasanaethau. Yn yr hinsawdd ariannol bresennol, mae'n bwysig hefyd fod adnoddau'n cael eu blaenoriaethu er mwyn sicrhau y caiff buddsoddiad yr effaith fwyaf a mwyaf cadarnhaol i'r gymuned leol.

I ddangos bod asedau'n cael eu rheoli'n effeithlon ac effeithiol, bydd nifer o fesurau perfformiad yn cael eu monitro ar gyfer pob categori asedau. Bydd dangosyddion perfformiad penodol yn cael eu hymgorffori mewn cynlluniau rheoli asedau unigol; fodd bynnag, mae nifer o ddeilliannau strategol sy'n gymwys i bob math o ased. Mae'r deilliannau strategol hyn yn dangos gweithrediad effeithiol y strategaeth rheoli asedau corfforaethol, a gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

- **CYDYMFFURFIO:** SICRHAU BOD ASEDAU YN CYDYMFFURFIO Â GOFYNION STATUDOL A RHEOLEIDDIOL.
- **CYFLWR:** CYNNAL A CHADW ASEDAU I GYFLWR BODDHAOL ER MWYN CEFNOGI CYFLENWI GWASANAETHAU.
- **ADDASRWYDD:** SICRHAU BOD ASEDAU YN ADDAS I'R DIBEN.
- **DIGONOLRWYDD:** SICRHAU BOD ASEDAU SYDD AR GAEL YN BODLONI GOFYNION PRESENNOL A DISGWYLIEDIG AM WASANAETHAU.
- **HYGYRCHEDD:** SICRHAU BOD ASEDAU MOR HYGYRCH AG Y BO MODD I BOB DEFNYDDIWR GWASANAETH.
- **CYNALIADWYEDD:** CYNNAL A CHADW ASEDAU I SICRHAU EU BYWYD GWEITHREDOL MWYAF A LLEIHAU'R EFFAITH NEGYDDOL BOSIBL AR YR AMGYLCHEDD.

## DEILLIANT 1: CYDYMFFURFIO

### Diben

I sicrhau bod asedau yn ddiogel i'w defnyddio a'u bod yn cefnogi cyflenwi gwasanaethau, rhaid i asedau gydymffurfio â gofynion statudol a rheoleiddiol, yn ogystal â bodloni safonau arfer gorau priodol.

### Gweithgareddau

Y prif weithgareddau yr ymgymerir â nhw rhwng 2013 a 2017 yw:

- Cyfrifoldeb ac atebolrwydd ar gyfer Profion Statudol ar adeiladau sy'n berchen i'r cyngor/a reolir gan y cyngor i'w trosglwyddo i'r Gwasanaethau Eiddo.
- Bydd cyllidebau cynnal a chadw yn cael eu cysoni fel bod atgyweiriadau sy'n flaenoriaeth a nodwyd gan y rhaglenni Profion Statudol yn cael eu gwneud yn effeithiol. Bydd y cyngor yn gweithio'n agos gyda'i ysgolion i sicrhau bod rheolaeth o'r rhaglenni Profion Statudol mewn ysgolion lawn mor effeithiol.
- Cyflwyno gwasanaethau i ysgolion i ddarparu staff Iechyd a Diogelwch iddynt naill ai am 1 diwrnod yr wythnos, neu 1 diwrnod bob pythefnos i weithio gydag athro ar ofynion asedau'r ysgol.
- Cynnal arolygon cyflwr ffyrdd blynyddol er mwyn gwneud gwelliannau i waith cynnal a chadw a gynlluniwyd a gwaith ymatebol

### Perfformiad

Bydd dangosyddion perfformiad yn monitro cynnydd dros oes y strategaeth, a bydd yn cael ei adrodd a'i fonitro o fewn y cynlluniau rheoli asedau priodol. Dangosir enghreifftiau o'r dangosyddion yn ymwneud â chydymffurfio isod.

| Perfformiad – Deilliant 1 Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Categori Ased** | **Dangosyddion Perfformiad Enghreifftiol** |
| Eiddo | • Nifer y tasgau trydanol a phrofion legionella Blaenoriaeth 1 a 2 sy'n weddill (>90 diwrnod)<br>• Nifer y tasgau nwy Blaenoriaeth 1 a 2 sy'n weddill (> 90 diwrnod)<br>• % o archwiliadau trydanol a legionella statudol a gomisiynwyd ac a gwblhawyd yn brydlon<br>• % o archwiliadau nwy statudol a gomisiynwyd ac a gwblhawyd yn brydlon |
| Addysg a Dysgu Gydol Oes | Yr un dangosyddion ag uchod ond ar gyfer ysgolion a safleoedd addysg eraill |
| Priffyrdd ac Asedau Cysylltiedig | • Archwiliadau cyffredinol ar gyfer Pontydd ac ar gyfer cwlfer lle cyfyng<br>• Archwiliadau cyffredinol o Waliau Cynnal<br>• Adroddiad SCRIMM ar Gyflyrau Ffyrdd |
| Mannau Agored | • Nifer yr archwiliadau diogelwch a gynhaliwyd mewn mannau chwarae / cyfleusterau ieuenctid |
| TGCh | • ISO/IEC 27001 - Ardystiad Rheoli Diogelwch Gwybodaeth – Archwiliadau Blynyddol a phob tair blynedd<br>• Ardystiad Cydymffurfio Rhwydwaith y Sector Cyhoeddus – Archwiliad blynyddol<br>• Meincnodi Cymru Gyfan y Gymdeithas Rheoli Technoleg Gwybodaeth |
| Fflyd | • % cyfradd pasio MOT ar Gerbydau Nwyddau Trwm<br>• % yr archwiliadau diogelwch a gynhaliwyd ar neu cyn y dyddiad |

| | |
|---|---|
| | dyledus, cyfartaledd fesul blwyddyn. |
| Tai | • Nifer gyfartalog y diwrnodau gweithio a gymerwyd i gwblhau gwaith atgyweirio a) wedi'i gynllunio b) arferol c) brys |

## DEILLIANT 2: CYFLWR

### Diben

Rhaid cynnal a chadw asedau i sicrhau eu bod mewn cyflwr boddhaol neu well er mwyn cefnogi cyflenwi gwasanaethau a chyflawni blaenoriaethau corfforaethol.

### Gweithgareddau

Y prif weithgareddau yr ymgymerir â nhw rhwng 2013 a 2017 yw:

- Bydd Gwasanaethau Eiddo yn mireinio'r portffolio adeiladau (gan gydnabod nad oes cyllideb ddigonol gan y cyngor i gynnal ei faint presennol), ac (os yw'n ymarferol) dargyfeirio'r arbedion canlyniadol i'r gyllideb eiddo; bydd hyn yn symud y sefydliad tuag at ystâd adeiladau sydd o safon dda ac sy'n gynaliadwy. Byddwn yn cynnal cronfa ddata o gyflwr adeiladau a fydd yn galluogi'r cyngor i ddarparu adeiladau sy'n addas i'r diben ac yn gynaliadwy.
- Bydd arolygon cyflwr yn cael eu defnyddio i herio'r defnydd parhaus o adeiladau i'w cadw neu'u gwaredu.
- ISO/IEC 27001 - Ardystiad Rheoli Diogelwch Gwybodaeth – Archwiliad manwl bob tair blynedd yn 2016.

### Perfformiad

Bydd dangosyddion perfformiad yn monitro cynnydd dros oes y strategaeth, a bydd yn cael ei adrodd a'i fonitro o fewn y cynlluniau rheoli asedau priodol. Dangosir enghreifftiau o'r dangosyddion yn ymwneud â chyflwr isod.

| Perfformiad - Deilliant 2: Cyflwr | |
|---|---|
| **Categori Ased** | **Dangosyddion Perfformiad Enghreifftiol** |
| **Eiddo** | • % o GIA gros adeiladau'r cyngor mewn cyflwr categori A – Da, categori B – Boddhaol, C – Sâl D – Gwael (wedi dod i ben).<br>• % o gyfanswm gwerth o waith cynnal a chadw gofynnol ar gyfer adeiladau'r cyngor wedi'i aseinio i Flaenoriaeth lefel 1 (brys) neu lefel 2 (hanfodol) |
| **Addysg a Dysgu Gydol Oes** | • % a nifer yr ysgolion ym mhob categori cyflwr A-D<br>• Symiau ôl-groniad 25 mlynedd mewn gwaith cynnal a chadw (£)<br>• $M^2$ o ofod llyfrgelloedd cyhoeddus sydd ar gael fesul 1000 o'r boblogaeth[12] |
| **Priffyrdd ac Asedau Cysylltiedig** | • % o ffyrdd A,B,C mewn cyflwr gwael cyffredinol<br>• Arwynebedd o brif gerbytffordd a cherbytffordd nad yw'n rhan o'r rhwydwaith wedi cael wyneb newydd<br>• % o arwynebedd llwybr troed wedi cael wyneb newydd |
| **Man Agored** | • Asesiad System Reoli ar gyfer Archwilio'r Amgylchedd Lleol Cadw Cymru'n Daclus<br>• % o briffyrdd neu dir perthnasol a archwiliwyd sydd o safon uchel neu dderbyniol o ran glendid |

[12] (Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru Hawl Graidd 6)

| Perfformiad - Deilliant 2: Cyflwr | |
|---|---|
| **Categori Ased** | **Dangosyddion Perfformiad Enghreifftiol** |
| **TGCh** | • Cymhwyso systemau ac argaeledd rhwydwaith<br>• % o ddigwyddiadau cefnogi wedi'u datrys o fewn graddfeydd amser cytûn<br>• ISO/IEC 27001 - Ardystiad Rheoli Diogelwch Gwybodaeth – Archwiliadau blynyddol a bob tair blynedd<br>• Ardystiad Cydymffurfio Rhwydwaith y Sector Cyhoeddus – Archwiliad blynyddol<br>• Asesiad blynyddol gwefan 'Better Connected' y Gymdeithas Rheoli Technoleg Gwybodaeth |
| **Fflyd** | • % cyfradd pasio MOT ar Gerbydau Nwyddau Trwm<br>• % yr archwiliadau diogelwch a gynhaliwyd ar neu cyn y dyddiad dyledus, cyfartaledd fesul blwyddyn |
| **Tai** | • Nifer y cartrefi ym mherchenogaeth yr awdurdod lleol wedi'u gwella i Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) |

## DEILLIANT 3: ADDASRWYDD

### Diben

Bydd asedau sy'n addas i'r diben ar gyfer cyflenwi gwasanaethau nawr ac yn y dyfodol yn fwy effeithiol o ran cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor. Mae addasrwydd yn ehangach na chyflwr asedau, gan ei fod hefyd yn ystyried pa mor dda y mae'r ased yn cydweddu â gofynion cyflenwi gwasanaethau presennol a rhai wedi'u cynllunio

### Gweithgareddau

Y prif weithgareddau yr ymgymerir â nhw rhwng 2013 a 2017 yw:

- ✓ Cynhyrchu Cynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaeth unigol i sicrhau bod y ddarpariaeth eiddo yn cael ei chynllunio mewn ffordd holistaidd.
- ✓ Parhau i adeiladu ysgolion newydd yn unol â'r rhaglen waith Ysgolion yr 21ain Ganrif, yn cynnwys:
  - St. Ilan, camau 2 a 3 yn yr hydref 2015 a chytundeb i symud ymlaen i gynlluniau cam 4.
  - Dechrau Ysgol Gynradd Gorllewin Islwyn yn dilyn cwblhau proses dendro Cyfnod 1 yn llwyddiannus.
  - Dechrau Ysgol Gynradd Abertysswg/Pontlottyn Primary (*nid yn* rhaglen waith Ysgolion yr 21ain Ganrif).
- Sicrhau bod y ddarpariaeth TGCh yn bodloni'r gofynion meddalwedd a chaledwedd sy'n angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau digidol datblygol a bodloni anghenion diogelwch gwybodaeth, llywodraethu a darpariaeth ac elfennau eraill sy'n cyfrannu at yr agenda e-lywodraeth.
- Sicrhau bod systemau gwybodaeth wedi'u diweddaru ac wedi'u hintegreiddio â systemau eraill i gipio ystod gyflawn a chywir o ddata eiddo hanfodol, yn cynnwys arolygon o gyflwr adeiladau fel bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar wybodaeth gywir a diweddar.

### Perfformiad

Bydd dangosyddion perfformiad yn monitro cynnydd dros oes y strategaeth, a bydd yn cael ei adrodd a'i fonitro o fewn y cynlluniau rheoli asedau priodol. Dangosir enghreifftiau o'r dangosyddion yn ymwneud ag addasrwydd dros y ddalen.

| Perfformiad - Deilliant 3: Addasrwydd | |
|---|---|
| **Categori Ased** | **Dangosyddion Perfformiad Enghreifftiol** |
| **Eiddo** | • % o'r cleientiaid yn fodlon ag ansawdd swyddfeydd corfforaethol<br>• Cyfanswm lle swyddfa y gellir ei ddefnyddio fesul cyflogai |
| **Addysg a Dysgu Gydol Oes** | • Addasrwydd cyffredinol categori A-D<br>• % lleoedd ystafell ddosbarth sy'n cydymffurfio o ran maint (Ysgolion cynradd)<br>• Mae'r ddarpariaeth TGCh yn bodloni'r gofynion meddalwedd a chaledwedd sy'n angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau digidol datblygol, darpariaeth gwybodaeth ac i fodloni'r agenda e-lywodraeth. |
| **Priffyrdd ac Asedau Cysylltiedig** | • Arwynebedd cerbytffyrdd y brif rwydwaith sydd wedi cael wyneb newydd.<br>• Arwynebedd cerbytffyrdd heb fod yn y brif rwydwaith sydd wedi cael wyneb newydd.<br>• % o Oleuadau Stryd wedi'u hamnewid â Deuodau Allyrru Golau (LED)<br>• Nifer y digwyddiadau llifogydd ar Briffyrdd |
| **TGCh** | • Meincnodi Cymru Gyfan y Gymdeithas Rheoli Technoleg Gwybodaeth<br>• Asesiad blynyddol gwefan 'Better Connected' y Gymdeithas Rheoli Technoleg Gwybodaeth |
| **Fflyd** | • Cynllunio galw ac anghenion yn y dyfodol i gael ei lywio'n rhannol gan y Cynllun Datblygu Lleol sy'n nodi defnydd tir yn y dyfodol, ac anghenion cludiant y dyfodol felly |
| **Tai** | • Hyrwyddo i'r eithaf y defnydd o gynllun tai gwarchod gofal ychwanegol y cyngor drwy leihau lefelau lleoedd gwag |
| **Datblygiad Masnachol** | • % cyfradd meddiannaeth |
| **Diwylliant a Threftadaeth** | • Cyfanswm nifer yr ymwelwyr â lleoliadau ymwelwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |

# DEILLIANT 4: DIGONOLRWYDD

## Diben

Mae'n rhaid i asedau cyngor fod yn ddigonol at ddefnydd presennol a defnydd y dyfodol, gyda chapasiti yn adlewyrchu'r galw a gofynion defnyddwyr. Mae'r elfen hon o reoli asedau yn galluogi'r cyngor i gynllunio i gefnogi datblygu gwasanaethau, yn ogystal â nodi unrhyw asedau posibl nad ydynt yn cael eu defnyddio digon.

## Gweithgareddau

Y prif weithgareddau yr ymgymerir â nhw rhwng 2013 a 2017 yw:

- Bydd Gwasanaethau Eiddo yn hyrwyddo trosglwyddo'r holl eiddo yn raddol i bortffolio corfforaethol canolog yn cael ei reoli gan Wasanaethau Eiddo, a, lle bo'n briodol, personél y gyfarwyddiaeth a gyflogir i reoli materion eiddo. Datblygu gweledigaeth 5 a 10 mlynedd ar gyfer asedau eiddo drwy'r Grŵp Rheoli Asedau.
- Uwchraddiadau TGCh sylweddol, yn cynnwys
  - Newid gweithrediadau'r ganolfan ddata i ddefnyddio technolegau rhithwir i gynnig mwy o hyblygrwydd rheoli capasiti tra'n lleihau ôl-troed carbon yr Awdurdod.
  - Adnewyddu'r holl ddyfeisiau cyfrifiadura pen desg a mabwysiadau technolegau cleientiaid tenau i hwyluso gweithio ystwyth tra'n lleihau ôl-troed carbon yr Awdurdod.
  - Diweddaru set cynnyrch MS Office i gynnig mwy o alluoedd i ddefnyddwyr ar gyfer y dyfodol.

## Perfformiad

Bydd dangosyddion perfformiad yn monitro cynnydd dros oes y strategaeth, a bydd yn cael ei adrodd a'i fonitro o fewn y cynlluniau rheoli asedau priodol. Dangosir enghreifftiau o'r dangosyddion yn ymwneud â digonolrwydd isod.

| Perfformiad - Deilliant 4: Digonolrwydd | |
|---|---|
| **Categori Ased** | **Dangosyddion Perfformiad Enghreifftiol** |
| **Eiddo** | • Cyfanswm lle swyddfa y gellir ei ddefnyddio fesul cyflogai.<br>• Cost lle swyddfa fesul cyflogai cyfwerth ag amser llawn mewn swyddfa.<br>• % o asedau â >80% o ddefnydd<br>• % GIA adeiladau'r ALl dros ben<br>• % lefel meddiannaeth: Portffolio eiddo masnachol y Cyngor<br>• Cynnal a chadw ymatebol – Gwasanaethau cwsmeriaid wedi'u graddio yn dda neu'n rhagorol |
| **Addysg a Dysgu Gydol Oes** | • % lleoedd gwag (yn ôl ysgol – Cynradd ac Uwchradd)<br>• % lleoedd wedi'u gorlenwi (yn ôl ysgol – Cynradd ac Uwchradd)<br>• Nifer Hawliau Craidd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru a dangosyddion perfformiad wedi'u bodloni ar gyfer gwasanaethau llyfrgell |
| **Priffyrdd ac Asedau Cysylltiedig** | • Arwynebedd cerbytffyrdd y brif rwydwaith sydd wedi cael wyneb newydd<br>• Arwynebedd cerbytffyrdd heb fod yn y brif rwydwaith sydd wedi cael wyneb newydd<br>• Nifer digwyddiadau llifogydd ar Briffyrdd<br>• Ymatebion atgyweirio ceudyllau |

| Perfformiad - Deilliant 4: Digonolrwydd | |
|---|---|
| **Categori Ased** | **Dangosyddion Perfformiad Enghreifftiol** |
| **Mannau Agored** | • Boddhad cwsmeriaid â gwasanaethau parciau (bob dwy flynedd)<br>• Nifer y toriadau glaswellt amwynder wedi'u cynnal |
| **TGCh** | • Ystadegau rheoli capasiti yn amlinellu'r cwmpas prosesu a storio sydd ar gael. |
| **Fflyd** | • Argaeledd cerbydau ailgylchu a sbwriel |
| **Tai** | • % y stoc tai gwag<br>• Nifer y bobl ar y rhestr aros<br>• Nifer y stoc tai cymdeithasol yn cael eu cynnal a'u cadw |

## DEILLIANT 5: HYGYRCHEDD

### Diben

I gyflenwi gwasanaethau'n effeithiol i holl aelodau'r gymuned, mae angen i asedau fod yn hygyrch i bawb, yn enwedig y rheiny ag anableddau corfforol ac anableddau dysgu.

### Gweithgareddau

Y prif weithgareddau yr ymgymerir â nhw rhwng 2013 a 2017 yw:

- Er bod rhaglen Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd ddatblygedig gan y Cyngor, a reolir gan swyddog mynediad anabledd pwrpasol mewn ymgynghoriad â grŵp cydraddoldeb anableddau'r cyngor a grŵp mynediad lleol gwirfoddol, rydym am wneud gwelliannau i'r stoc mynediad cyhoeddus o flwyddyn i flwyddyn.
- Gwella statws hygyrch ysgolion yn unol â'r Strategaeth Mynediad Corfforol
- Ymgynghori ynghylch bob adeilad ysgol newydd er mwyn cynyddu hygyrchedd i ddisgyblion ag anghenion cymhleth i'r eithaf er mwyn iddynt gael mynediad i ddarpariaeth brif ffrwd. Gwella offer sefydlog a chludadwy er mwyn cynorthwyo â symud a thrin plant ag anableddau corfforol mewn ysgolion prif ffrwd
- Defnyddio'r pafin cyffyrddol, mwy o eglurder/manylder o amnewid goleuadau stryd ag LED a mesurau a gymerwyd o dan Cynnal a Chadw dros y Gaeaf.
- Adnewyddu'r wefan yn cynnwys y newid i ddyluniad ymatebol er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr ffonau clyfar a llechi a gweithio gyda chyrff annibynnol i sicrhau ei bod yn hygyrch i bobl ag anableddau.

### Perfformiad

Bydd dangosyddion perfformiad yn monitro cynnydd dros oes y strategaeth, a bydd yn cael ei adrodd a'i fonitro o fewn y cynlluniau rheoli asedau priodol. Dangosir enghreifftiau o'r dangosyddion yn ymwneud â hygyrchedd isod.

Perfformiad - Deilliant 5: Hygyrchedd

| Categori Ased | Dangosyddion Perfformiad Enghreifftiol |
|---|---|
| **Eiddo** | • % adeiladau *perthnasol* y cyngor a wnaed yn addas ac yn rhesymol o hygyrch i aelodau anabl o'r cyhoedd. |
| **Addysg a Dysgu Gydol Oes** | • % y ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim sydd yn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd ar gyfer cyfnodau allweddol 2, 3 a 4 (trothwy lefel 2)<br>• % o ysgolion hygyrch<br>• Perfformiad y gwasanaeth llyfrgelloedd yn erbyn Hawliau Craidd 6 a 7 Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (mynediad i bawb) |
| **Priffyrdd ac Asedau Cysylltiedig** | • % y rhwydwaith sy'n destun halltu rhagofalus<br>• % yr achlysuron pan fo halltu rhagofalus wedi'i gwblhau cyn i rew ffurfio<br>• Effeithiau trawsnewidiadau LED ar gyfer goleuadau stryd |
| **Mannau Agored** | • % yr hawliau tramwy yr ystyriwyd eu bod yn hawdd eu defnyddio gan y cyhoedd |
| **TGCh** | • Asesiad blynyddol gwefan 'Better Connected' y Gymdeithas Rheoli Technoleg Gwybodaeth |
| **Tai** | • Nifer y tenantiaid y mae eu cartrefi wedi'u haddasu i fodloni SATC er mwyn diwallu eu hanghenion |

## DEILLIANT 6: CYNALIADWYEDD

### Diben

Bydd asedau'r Cyngor yn cael eu rheoli i sicrhau bod eu hoes weithredol ddefnyddiol yn bodloni disgwyliad oes disgwyliedig, yn ogystal â lleihau'r effaith niweidiol bosibl ar yr amgylchedd. Dylai cynaliadwyedd wneud yn siŵr bod asedau'r cyngor ar gael i gefnogi cyflwyno gwasanaethau'n barhaus yn y tymor hir.

### Gweithgareddau

Y prif weithgareddau yr ymgymerir â nhw hyd at 2017 i gyflawni cynaliadwyedd parhaus yw:

- Byddwn yn cymryd camau i leihau ein hôl-troed carbon mewn adeiladau annomestig yn unol â'r Strategaeth Lleihau Carbon
- Byddwn  yn diweddaru ac yn cynnal Arolygon Cyflwr Adeiladau fel bod hoes weithredol ddefnyddiol ein hasedau yn bodloni'r disgwyliad oes rhagamcanol.
- Byddwn yn parhau â'r gwaith trawsnewid i oleuadau stryd LED, yn defnyddio'r cyfleusterau ailgylchu yng Nghoed Top ac yn trawsnewid i fflyd lorïau graeanu hybrid.
- Newid i dechnolegau TGCh rhithwir a thenau i gleientiaid yn y Ganolfan Ddata ac a chyfrifiadura pen desg, cyfleusterau gweithio symudol i leihau'r angen am allgynnyrch wedi'i argraffu, a mabwysiadu cyfleusterau argraffu cynnyrch aml-swyddogaeth (MFP) er mwyn lleihau faint o arlliwiau a phapur a ddefnyddir er mwyn cyfrannu at leihau ôl-troed carbon yr Awdurdod

### Perfformiad

Bydd dangosyddion perfformiad yn monitro cynnydd dros oes y strategaeth, a bydd yn cael ei adrodd a'i fonitro o fewn y cynlluniau rheoli asedau priodol. Dangosir enghreifftiau o'r dangosyddion yn ymwneud â chynaliadwyedd dros y ddalen.

| Perfformiad - Deilliant 6: Cynaliadwyedd | |
|---|---|
| **Categori Ased** | **Dangosyddion Perfformiad Enghreifftiol** |
| **Eiddo** | • Tystysgrif Arddangos Ynni (DEC) – Nifer y Tystysgrifau Eiddo a gynhyrchwyd ac a roddwyd o fewn y flwyddyn<br>• Arbedion allyriadau carbon blynyddol (Tunelli o CO2) o adeiladau'r Cyngor – yn deillio o gynlluniau Cyllid Ynni Awdurdodau Lleol (LAEF) sydd wedi'u gweithredu.<br>• Nifer y technolegau ynni adnewyddadwy (yn hawlio Tariffau Bwydo i Mewn neu Gymhelliad Gwres Adnewyddadwy) sydd wedi'u gosod, a rhinweddau a buddion cynlluniau ynni adnewyddadwy presennol. |
| **Addysg a Dysgu Gydol Oes** | • % a nifer yr ysgolion wedi'u dyfarnu'n rhagorol neu'n well o dan asesiad BREEAM<br>• Nifer y gweithdai a digwyddiadau a gynhaliwyd gydag ysgolion fel rhan o'r rhaglen Eco-ysgolion a sesiynau cynyddu ymwybyddiaeth a gyflwynwyd i ysgolion.<br>• % yr ysgolion â'r dyfarniad uchaf (y faner werdd) o dan y rhaglen Eco-ysgolion ar 31 Mawrth.<br>• Defnydd o Ynni (Nwy, Trydan) fesul kWh<br>• Defnydd o Ddŵr (fesul $m^3$) |
| **Priffyrdd ac Asedau Cysylltiedig** | • Y carbon ar hyd oes a arbedir wrth drawsnewid i oleuadau stryd effeithlonrwydd uwch (tunelli/y flwyddyn).<br>• Nifer y goleuadau stryd wedi'u trawsnewid i fformat Deuod Allyrru Golau (LED). |
| **Mannau Agored** | • % y parciau a gyflawnodd statws cenedlaethol y faner werdd |
| **TGCh** | • Technoleg cleient tenau v. Cymhareb cyfrifiaduron personol<br>• Cymhareb technolegau rhithwir v. Gweinyddwyr ffisegol<br>• Ystadegau defnyddio Cynnyrch Aml-swyddogaeth |
| **Fflyd** | • Fflyd gweithredu Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – tunelli o allyriadau CO2 o ddefnyddio diesel.<br>• Cyfanswm y tanwydd a ddefnyddiwyd gan y fflyd DLO |
| **Tai** | • % o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu<br>• Graddfa gyffredinol gyfartalog y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer eiddo<br>• Nifer yr eiddo â lefelau effeithlonrwydd ynni gwell drwy welliannau SATC<br>• Stoc SATC â graddfa 65+ y Cynllun Gweithredu Strategol<br>• Nifer y stoc sy'n bodloni SATC |

# Adran 3 | Monitro ac Adolygu'r Strategaeth

Ymgynghorwyd ynglŷn â'r strategaeth gydag ystod o bartïon â buddiant, a chafodd ei mabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor ar 22 Tachwedd 2016.

Mae'r Strategaeth ar gael ar Fewnrwyd y Cyngor, ei wefan, a chan y Gwasanaethau Eiddo (ar ffurf copi caled).

Yr Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am y Strategaeth Rheoli Asedau yw'r Aelod Cabinet ar gyfer Perfformiad ac Eiddo.

Bydd y strategaeth yn cael ei monitro a'i hadolygu gan y Grŵp Rheoli Asedau ddwywaith y flwyddyn. Bydd yr adolygiad yn nodi'r rhagdybiaethau a'r cyfyngiadau i wirio a yw'r rhain wedi aros yr un fath neu a ydynt wedi newid, gan y gallai hynny yn ei dro newid cyfeiriad strategol y strategaeth hon. Bydd y gofrestr risg yn cael ei hadolygu a'i diweddaru hefyd ar yr adeg hon.

Mae'r Cyngor wedi sefydlu nifer o Weithgorau (gweler ar y dde) i reoli elfennau ar wahân y Strategaeth hon, gan gefnogi argymhellion i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, y Cabinet, a'r Cyngor; nid ydynt yn gyrff sy'n gwneud penderfyniadau, ac yn gyffredinol, cânt eu cadeirio gan y Cyfarwyddwr neu'r Pennaeth Gwasanaeth priodol gyda'r Deiliad Portffolio Cabinet yn bresennol.

Crynhoir eu rolau yn y tabl dros y ddalen.

| Grŵp |
|---|
| Grwpiau Rheoli Cyfalaf ac Asedau |
| Grŵp Rheoli Asedau Eiddo |
| Addysg<br>Grŵp Rheoli Cyfalaf Addysg |
| Grŵp Gweithrediadau Priffyrdd |
| Gweithgor Mannau Agored |
| Grŵp Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth Corfforaethol |
| Tîm Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth |
| Rheoli'r Fflyd |
| Grŵp Gorchwyl Cartrefi Caerffili |

Mae'r dangosyddion (cyfeirir atynt yn Adran 2 | Deilliannau'r Strategaeth) sy'n mesur llwyddiant y strategaeth wedi'u cynnwys o fewn cardiau sgôr gwasanaethau a fydd yn cael eu monitro yn y system Rheoli Perfformiad Cynghorau o'r enw Ffynnon.

Bydd unrhyw risgiau sy'n cynyddu o ran difrifoldeb yn cael eu huwchgyfeirio i Gofrestr Risgiau Corfforaethol y Cyngor a byddant yn cael eu monitro'n fisol wedyn gan Dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor.

| Grŵp | Rôl |
|---|---|
| Grwpiau Rheoli Cyfalaf ac Asedau | • Cyfrifoldeb am gyfeiriad a chwmpas y Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol a'r cynlluniau rheoli asedau unigol.<br>• Monitro corfforaethol y rhaglen gyfalaf gwasanaethau cyffredinol ac ystyried amrywiannau.<br>• Gwerthuso gofynion buddsoddi sy'n dod i'r amlwg ac achosion busnes amlinellol strategol (SOBC).<br>• Goruchwylio cydlynu prosiectau a mentrau rheoli asedau corfforaethol. |
| Grŵp Rheoli Asedau Eiddo | • Cyfrifoldeb am gyfeiriad a chwmpas y Strategaeth Rheoli Asedau Eiddo.<br>• Rheoli a monitro rhaglen gyfalaf gwasanaethau cyffredinol eiddo yn cynnwys nodi a blaenoriaethu buddsoddiad.<br>• Sicrhau bod adnoddau rheoli prosiectau digonol yn cael eu defnyddio ar gyfer cyflawni prosiectau'n llwyddiannus, gan gynnwys nodi a rheoli risgiau.<br>• Gwerthuso cychwynnol y gofynion buddsoddi sy'n dod i'r amlwg ac achosion busnes amlinellol strategol (SOBC).<br>• Hwyluso cyswllt gwasanaethau ar brosiectau asedau eiddo penodol a materion rheoli eiddo gweithredol cyffredinol.<br>• Monitro perfformiad a chynnydd ar fentrau yn ymwneud â'r Cynllun Rheoli Asedau Eiddo.<br>• Goruchwylio cydlynu prosiectau eiddo corfforaethol. |
| Bwrdd Strategaeth Ysgolion | • Cyfrifoldeb am gyfeiriad a chwmpas y Cynllun Rheoli Asedau Ysgolion.<br>• Rheoli a monitro'r rhaglen cyfalaf addysg, gan gynnwys nodi a blaenoriaethu buddsoddiad.<br>• Gwerthuso cychwynnol o'r gofynion buddsoddi sy'n dod i'r amlwg ac achosion busnes amlinellol strategol.<br>• Sicrhau bod adnoddau rheoli prosiectau digonol yn cael eu defnyddio ar gyfer cyflawni prosiectau'n llwyddiannus, gan gynnwys nodi a rheoli risgiau.<br>• Monitro perfformiad a chynnydd ar fentrau yn ymwneud â'r Cynllun Rheoli Asedau Ysgolion.<br>• Goruchwylio cydlynu prosiectau addysg. |
| Grŵp Gweithrediadau Priffyrdd | • Cyfrifoldeb am gyfeiriad a chwmpas y Cynllun Rheoli Priffyrdd a'r Cynllun Rheoli Asedau cysylltiedig.<br>• Gwerthuso a blaenoriaethu'r rhaglen waith flynyddol i gysoni â blaenoriaethau rheoli asedau.<br>• Monitro perfformiad a chynnydd ar fentrau yn ymwneud â'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd.<br>• Gwerthuso cychwynnol y gofynion buddsoddi sy'n dod i'r amlwg ac achosion busnes amlinellol strategol.<br>• Sicrhau bod adnoddau rheoli prosiectau digonol yn cael eu defnyddio ar gyfer cyflawni prosiectau'n llwyddiannus, gan gynnwys nodi a rheoli risgiau. |

| Grŵp | Rôl |
|---|---|
| Gweithgor Mannau Agored | • Cyfrifoldeb am gyfeiriad a chwmpas y Cynllun Rheoli Asedau Mannau Agored.<br>• Monitro perfformiad a chynnydd ar fentrau'n ymwneud â'r Cynllun Rheoli Asedau Mannau Agored.<br>• Gwerthuso cychwynnol y gofynion buddsoddi sy'n dod i'r amlwg ac achosion busnes amlinellol strategol.<br>• Sicrhau bod adnoddau rheoli prosiectau digonol yn cael eu defnyddio ar gyfer cyflawni prosiectau'n llwyddiannus, gan gynnwys nodi a rheoli risgiau. |
| Grŵp Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth Corfforaethol<br><br>(CITSG) | • Cyfrifoldeb am gyfeiriad a chwmpas y Cynllun Rheoli Asedau TGCh.<br>• Gwerthuso cychwynnol y gofynion buddsoddi sy'n dod i'r amlwg ac achosion busnes amlinellol strategol.<br>• Cyfrifoldeb am flaenoriaethu buddsoddiad a phrosiectau TGCh.<br>• Monitro perfformiad a chynnydd ar fentrau'n ymwneud â'r Cynllun Rheoli Asedau TGCh.<br>• Monitro buddiannau a gyflawnir o brosiectau TGCh hyd at gau'r prosiectau. |
| Tîm Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth | • Cydlynu camau i sicrhau cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol rhyddid gwybodaeth, diogelu data, rheoli cofnodion, a diogelwch gwybodaeth.<br>• Monitro perfformiad y cyngor wrth ddelio â cheisiadau rhyddid gwybodaeth a diogelu data. |
| Rheoli'r Fflyd | • Cyfrifoldeb am gyfeiriad a chwmpas Cynllun Rheoli Asedau'r Fflyd,<br>• Cyfrifoldeb am nodi a blaenoriaethu buddsoddiad ar y cyd â rheolwyr gwasanaethau.<br>• Ymgymryd ag adolygiadau mewnol o drafnidiaeth a rhoi'r casgliadau ar waith. |
| Grŵp Gorchwyl Cartrefi Caerffili | • Cynghori a gwneud argymhellion mewn perthynas â'r Rhaglen Cyfalaf Tai, gan gynnwys nodi a blaenoriaethu buddsoddiad.<br>• Goruchwylio cydlynu prosiectau tai. |

## Rhagdybiaethau

Mae'r Strategaeth yn seiliedig ar y Rhagdybiaethau canlynol:

- Cyfathrebu da rhwng grwpiau
- Y bydd cyllidebau yn parhau i leihau ac y bydd angen dod o hyd i arbedion effeithlonrwydd
- Mai cynaliadwyedd yn ei ystyr ehangaf fydd flaenaf yn y broses benderfynu

Bydd y rhagdybiaethau hyn yn cael eu gwirio'n rheolaidd fel rhan o waith monitro'r strategaeth hon.

## Cyfyngiadau

- Rydym yn gweithio gyda stoc adeiladau sy’n heneiddio ac yn dirywio, a lefel o oes weddilliol negyddol ar ein ffyrdd
- Cyllideb sy’n lleihau o flwyddyn i flwyddyn – gall yr effaith leihau gwaith cynnal a chadw ataliol neu waith cynnal a chadw wedi’i gynllunio, ac mae hyn yn effeithio ar ddatblygiadau newydd, er enghraifft adnewyddu stoc TG neu gerbydau, llai o wasanaethau (h.y. llai o oriau agor mewn llyfrgelloedd neu ganolfannau chwaraeon)
- Mae Cynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaethau yn rhan o dirwedd sy’n newid gan ei gwneud hi’n anodd ysgrifennu ‘cynlluniau rheoli asedau gwasanaethau’ gan fod y sefyllfa’n newid yn gyflym ac ar sail materion yn dod i’r amlwg; er enghraifft, mae Safon Ansawdd Tai Cymru y tu ôl i’r rhaglen gynlluniedig oherwydd ystod o faterion a nodir yn eu cofrestr rheoli risg bwrpasol.

## Cyfleoedd

- Gall gwell dealltwriaeth ynglŷn â sut gall asedau weithio’n well gyda’i gilydd (e.e. gweithio ystwyth yn arwain at leihau costau adeiladau) helpu cyflawni blaenoriaethau’r cyngor.
- Gallai Trosglwyddo Asedau Cymunedol alluogi cymunedau i gymryd a chynnal a chadw eu hasedau eu hunain gan ryddhau’r awdurdod i weithio ar set o asedau â mwy o ffocws. Yn y dyfodol ac o dan Ddeddf Cenedlaethau’r Dyfodol, gall fod cyfle i weithio mewn partneriaeth â rhai eraill yn y sector cyhoeddus i gydgrynhoi a darparu asedau ar sail anghenion cymunedol, gan ddefnyddio asedau eraill fel y bwrdd iechyd neu’r heddlu. Mae asedau sy’n seiliedig ar ‘le’ a chymuned yn cynnwys y potensial i fabwysiadu safbwynt ehangach ar fuddion a’r defnydd o asedau.
- Eiddo Diwylliannol – Portffolio Gwella Busnes
- Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus newydd, a sefydlwyd yn weithredol o 1 Ebrill 2016, yn gweithredu fel cyfrwng ar gyfer cyd-drafodaethau am adnoddau adeiladau.
- Buddsoddi mewn ffyrdd – mae triniaethau cadwraeth yn ymestyn oes ddylunio cerbytffyrdd a throetffyrdd, er yr edrychir ar ddatblygiadau arloesol o hyd am atebion mwy parhaol
- Mae dulliau arloesol ar gyfer cwblhau tasgau Priffyrdd arferol yn cael eu treialu ar hyn o bryd, e.e. cerbyd “multihog” ar gyfer mireinio gwaith cyweirio adweithiol, gosod tarmac yn oer ar gyfer trin ceudyllau yn fwy diogel ac yn fwy hyblyg; ynghyd â threialon yn y dyfodol, fel defnyddio dronau i archwilio’r tomenni niferus yn y Fwrdeistref Sirol o’r awyr
- Defnyddio carbon ynni isel i leihau’r costau economaidd a’r costau amgylcheddol ar gyfer asedau priffyrdd, fel goleuadau stryd trefol a gwledig

# Adran 4 | Atodiadau

Atodiad A: Nodau Llesiant Cenedlaethol Cenedlaethau'r Dyfodol 42

Atodiad B: Safon Sylfaen – Ystyr Hygyrch 43

Atodiad C: Penderfyniadau Buddsoddi (Achos Busnes Amlinellol Strategol) 44

## Atodiad A: Nodau Llesiant Cendlaethol Cenedlaethau’r Dyfodol

| Nod | Disgrifiad o’r Nod |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy’n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd), ac sy’n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy’n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. |
| **Cymru gydnerth** | Cenedl sy’n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy’n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â’r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). |
| **Cymru iachach** | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |
| **Cymru sy’n fwy cyfartal** | Cymdeithas sy’n galluogi pobl i gyflawni eu potensial, ni waeth beth fo’u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a’u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu** | Cymdeithas sy’n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a’r Gymraeg ac sy’n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. |
| **Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud rhywbeth o’r fath gyfrannu’n gadarnhaol at lesiant byd-eang. |

## Atodiad B: Safon Sylfaen – Ystyr Hygyrch

### 4. Safon Sylfaen – Ystyr Hygyrch

4.1 Y nod cyffredinol yn amlwg fyddai sicrhau bod pob adeilad yn gwbl hygyrch yn gorfforol i bawb trwy gwblhau'r holl argymhellion o'r archwiliad o fynediad. Yn y mwyafrif o achosion, gellid disgrifio hyn wedyn fel adeilad cwbl hygyrch.

4.2 Gan fod hyn rai blynyddoedd i ffwrdd, y cynnig yn y cyfamser yw pennu meini prawf y gall y Cyngor weithio tuag atynt. Argymhellir pedwar maen prawf bras i fodloni'r diffiniad o fod yn hygyrch yn gorfforol.

*Pan fydd eiddo yn gallu bodloni'r pedwar maen prawf, bydd yn hygyrch yn gorfforol i'r safon sylfaen.*

**Noder** – Os yw unrhyw un o'r meini prawf yn afresymol e.e. cilfach barcio hygyrch yng nghanol ardal siopa, byddai hyn yn cael ei amlygu yn y cynllun mynediad.


Dyma'r pedwar maen prawf:

- **Parcio** - cilfachau hygyrch, dynodedig wedi'u marcio'n glir gyda chyrbiau is, pafin cyffyrddol a llwybrau mynediad clir
- **Prif Fynedfa** - mynedfa lefel llawr a drysau yn y cyntedd gyda mecanweithiau agor hygyrch
- **Derbynfa** - llwybrau mynediad clir i brif ardal y dderbynfa, gyda chownter lefel isel a system dolenni clywed
- **Toiledau Hygyrch** - llwybr dirwystr i doiled hygyrch gerllaw ardal y dderbynfa neu o fewn pellter rhesymol.


4.3 Efallai y bydd neu efallai na fydd y meini prawf hyn yn darparu mynediad llawn i'r gwasanaeth neu'r cyfleuster y mae'r eiddo yn gweithredu ohono, gan y gall fod gofynion mwy penodol gan wasanaethau unigol e.e. mynediad i lawr cyntaf llyfrgell. Fodd bynnag, mae'n bwynt cyfeirio/sylfaen ar gyfer sefydlu rhaglen o waith, y gellir ei monitro a'i mesur o flwyddyn i flwyddyn. Yn y cyfamser, mae angen rhoi ystyriaeth i'r modd y gellir darparu'r gwasanaeth mewn ffordd arall e.e. staff i gael llyfrau y gofynnir amdanynt o lawr cyntaf llyfrgell i'r unigolyn.

## Atodiad C: Penderfyniadau Buddsoddi (Achos Busnes Amlinellol Strategol)

1. Rhaid bod cynlluniau rheoli asedau treigl 3 blynedd ar gyfer pob cyfarwyddiaeth, yn amlinellu'r gofynion eiddo dros gyfnod y cynllun a nodi'r cyllidebau cysylltiedig ar gyfer refeniw cylchol, refeniw nad yw'n gylchol a gwariant cyfalaf. Mae gwaith cynnal a chadw adweithiol, yn ôl ei natur, yn anodd ei gynllunio, ond y bwriad yw cynnal rhaglen o waith cynnal a chadw cynlluniedig. Serch hynny, bydd gofyniad am bennawd cyllideb ar gyfer gwaith cynnal a chadw adweithiol  o fewn y rhaglen 3 blynedd.
2. Bydd fframwaith buddsoddi integredig yn cael ei sefydlu. Bydd y fframwaith yn darparu'r cyswllt rhwng cynlluniau rheoli asedau unigol a chorfforaethol a'r strategaeth fuddsoddi, gan alluogi dyraniadau cyfalaf/refeniw a gefnogir gan flaenoriaethau corfforaethol ac arfarniad o opsiynau. Mae Ffigur 1, isod, yn amlinellu'r model llywodraethu a argymhellir o gyd-destun strategol i adolygiad ôl-prosiect. Mae Ffigur 2, dros y ddalen, yn diffinio proses gynllunio camau 1 a 2 ymhellach.
3. Bydd yr ymagwedd integredig tymor hwy hon at flaenoriaethu corfforaethol a rheoli asedau yn sicrhau bod buddsoddiad wedi'i gysylltu'n glir â rheolaeth effeithiol a chynaliadwy o bortffolio asedau helaeth yr awdurdod. Yr amcanion allweddol yw sicrhau defnyddio asedau addas i'r diben sy'n cefnogi darparu gwasanaethau ac i dargedu buddsoddiad i ble caiff buddion eu hyrwyddo i'r eithaf.




**Ffigur 1 – Model Llywodraethu Prosiectau a Rhaglenni**




**Ffigur 2 – Fframwaith y Broses Cynllunio Camau 1 a 2**

4. Bydd Achos Busnes Amlinellol Strategol yn cael ei baratoi ar gyfer pob buddsoddiad arfaethedig (ac eithrio gwariant refeniw cylchol blynyddol). Bydd yr Achos Busnes Amlinellol Strategol yn darparu gwybodaeth lefel uchel ar gyfer pob buddsoddiad er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus yn ystod y broses gynllunio a blaenoriaethu. Bydd hefyd yn gosod y sylfaen ar gyfer adeiladu achos busnes llawn, os yw'n briodol.
5. Rhaid i'r Achos Busnes Amlinellol Strategol roi'r cynnig mewn cyd-destun strategol yn amlinellu'r wybodaeth allweddol ganlynol:-
   - Anghenion a diben y prosiect
   - Pwy yw'r partïon â buddiant
   - Cwmpas y prosiect a diffiniad o'r prosiect
   - Ei broffil buddion (a nodau ac amcanion)
   - Y cysylltiadau â rhaglenni a chynlluniau strategol a chorfforaethol
   - Y cysylltiadau â chynlluniau gwella a newid busnesau a gwasanaethau.
   - Amcangyfrifon o gostau cyllideb

**Blaenoriaethu Corfforaethol**

6. Mae’n rhaid i’r Achosion Busnes Amlinellol Strategol:-
   - Roi syniad o gyfanswm y gofyniad cyllido.
   - Nodi buddsoddiad statudol craidd, cydymffurfio a chylch bywyd.
   - Blaenoriaethu’r buddsoddiad yn erbyn meini prawf wedi’u pennu ymlaen llaw.
   - Awdurdodi prosiectau mewn egwyddor a dyrannu unrhyw gyllid sydd ei angen i symud y prosiect yn ei flaen i’r cam achos busnes llawn.
   - Mesur yr effaith ar statws cyflwr yr eiddo

**Achos Busnes Amlinellol a Llawn**

7. Bydd hyn yn galluogi gwneud penderfyniadau gwybodus ar gyfer cynnwys buddsoddiadau mewn rhaglen gyfalaf fanwl 3-5 mlynedd, a symud ymlaen â phrosiectau unigol hyd at eu cwblhau. Mae’r Achosion Busnes Amlinellol a Llawn yn adeiladu ar yr Achos Busnes Amlinellol Strategol a bydd yn cynnwys mwy o fanylder, o ganlyniad i brosiect yn cael ei awdurdodi a’i ariannu i fwrw ymlaen mewn egwyddor yn ystod y broses blaenoriaethu corfforaethol. Dylai’r achos busnes amlinellu’r data allweddol canlynol:-
   - Y proffil buddion (a’r nodau ac amcanion);
   - Cysylltiadau â rhaglenni a chynlluniau strategol a chorfforaethol
   - Cysylltiadau â chynlluniau gwella a newid busnesau a gwasanaethau
   - Costau gweithredu ac arbedion effeithlonrwydd
   - Cymeradwyaeth gan yr holl randdeiliaid allweddol a chyfranwyr.
   - Y risgiau sy’n gysylltiedig – a sut gellir eu rheoli
   - Costau manwl, a meini prawf ar gyfer gwerthuso a blaenoriaethu
   - Cymorth gan y model ariannol
   - Cynllun prosiect ac amserlen gweithredu
   - Cynlluniau ar gyfer datblygu strategaeth caffael